Llywodraeth Cymru
Welsh Government



# Bargen y Sector Ynni Adnewyddddadwy i Gymru

# Cynnwys


**Rhagair** **4**

**1. Cynnydd hyd yma: yr hyn sydd eisoes wedi'i wneud yng Nghymru** **5**

**2. Cyflwyniad a phwrpas Bargen y Sector** **7**

**3. Arweinwyr rhanddeiliaid** **8**

**4. Strwythur Bargen y Sector** **9**

**5. Blaenoriaethau trawsbynciol** **10**

5.1.1 Sefydlogrwydd polisi a chanllawiau cyson a gwneud penderfyniadau 10

5.1.2 Sylfaen dystiolaeth amgylcheddol gyffredin a chapasiti cynghori digonol 11

5.1.3. Ymgysylltu'n gynnar ac ansawdd ceisiadau 11

5.1.4. Cydlyniant rhwng prosiectau cynhyrchu a'r grid trydan 11

5.1.5. Safbwyntiau cydgysylltiedig ar ddiwygiadau ar lefel y DU 11

5.1.6. Fframweithiau budd cymunedol teg a hyblyg. 11

**6. Mathau o ymrwymiadau ym Margen y Sector** **13**

**7. Amserlenni** **13**

**8. Y themâu** **14**

8.1. Amgylchedd galluogi, polisi, rheoleiddio a chydsynio 14

8.2. Creu marchnadoedd, buddsoddi a chymorth cyllid 15

8.3. Sgiliau a'r gweithlu 16

8.4. Y grid yng Nghymru 17

8.5. Arloesi ac ymchwil, gan gynnwys economi gylchol a datgomisiynu 17

8.6. Seilwaith a chadwyni cyflenwi 18

8.7. Perchnogaeth gymunedol a buddion cymunedol 18

9. Trefniadau llywodraethu a gweithredu 21

10. Casgliad 23

Atodiad 1 – Ymrwymiadau 24

Rhestr o Dermau Allweddol 34

Atodiad 1: Cylch Gorchwyl Grŵp Gorchwyl a Gorffen Bargen y Sector Ynni Adnewyddadwy 35

# Rhagair

Mae Cymru mewncyfnod hollbwysig o ran trosglwyddo i ynni glân, diogel a fforddiadwy. Mae angen gweithredu ar frys er mwyn cyrraedd ein targed o sicrhau bod yr hyn sy'n cyfateb i 100% o ddefnydd trydan blynyddol Cymru yn dod o ffynonellau adnewyddadwy erbyn 2035. Mae angen Bargen y Sector arnom nawr i droi uchelgais yn gamau gweithredu cydgysylltiedig.

Mae enghreifftiau cryf o'r hyn y gall ymrwymiad a chydweithio hirdymor ei gyflawni. Mae prosiect Morlais ar Ynys Môn yn dangos sut y gall partneriaeth barhaus ddatgloi adnoddau ynni'r môr naturiol Cymru a'u troi'n gyfle economaidd parhaol i gymunedau a busnesau lleol. Yn ehangach, sicrhaodd y rownd Contractau ar gyfer Gwahaniaeth diweddar gymorth ar gyfer mwy na 1,400 MW o brosiectau ynni adnewyddadwy yng Nghymru. Mae hyn yn cadarnhau bod Cymru mewn safle gref i gyflawni a manteisio ar y newidiadau sydd eu hangen er mwyn ein heconomi, amgylchedd a diogeledd ynni'r wlad.

Er mwyn cyrraedd ein targedau cenedlaethol, mae angen partneriaeth system gyfan ac aml-dechnoleg gydgysylltiedig sy'n dwyn ynghyd yr holl sectorau adnewyddadwy, gan gynnwys gwynt ar y tir ac ar y môr, solar, morol a dŵr, ochr yn ochr â'r seilwaith a'r hyblygrwydd system sydd eu hangen i'w cefnogi. Wrth ddatblygu'r Fargen y Sector, rydym yn cydnabod argymhellion Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru a Chynllun Pŵer Lleol Llywodraeth y DU, gyda'r ddau yn cyd-fynd â'n hegwyddor sylfaenol, sef y dylai cymunedau Cymru elwa'n uniongyrchol ar ddatblygiad, perchnogaeth a gwerth hirdymor prosiectau ynni adnewyddadwy.

Pwrpas Y Fargen hon yw darparu fframwaith clir ac ymarferol sy'n cyflymu darpariaeth o ynni adnewyddadwy ac yn sicrhau bod buddion economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a chymunedol yn cael eu cadw yng Nghymru. Bydd y gwaith cyflawni yn cael ei lywio gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gan gymhwyso ei phum ffordd o weithio drwy gynllunio ar gyfer yr hirdymor, atal problemau yn y dyfodol, integreiddio amcanion, cydweithio ar draws sectorau a chynnwys pobl a chymunedau wrth lywio dyfodol ynni Cymru.

Mae'r Fargen hon wedi'i strwythuro o amgylch saith thema a 78 ymrwymiad, gyda chydweithio rhwng y llywodraeth a'r sectorau diwydiant yn ganolog i'w llwyddiant. Bydd trefniadau llywodraethu a gweithredu yn sicrhau goruchwyliaeth, atebolrwydd a chydlynu, gyda chymorth gwaith monitro cynnydd tryloyw a mecanweithiau clir i fynd i'r afael â heriau cyflawni wrth iddynt godi.

Er mwyn cefnogi'r gwaith cynllunio a darparu hyder i fuddsoddwyr, mae Bargen y Sector yn nodi gorwelion cyflawni tymor byr, tymor canolig a hirdymor clir. Y bwriad fyddai i'w gweithredu dros gyfnod o bedair blynedd ac ar draws cylchoedd gwleidyddol. Er y bydd yr holl ymrwymiadau yn ddibynol yn y pen draw i flaenoriaethau'r weinyddiaeth newydd, bwriad y gwaith hwn yw darparu sylfaen gadarn a thystiolaeth dda ar gyfer Llywodraeth nesaf Cymru.

Ar y cyfan, mae Bargen y Sector yn cynrychioli cyd-ymrwymiad i gyflymu'r defnydd o ynni adnewyddadwy, cryfhau cadwyni cyflenwi Cymru, adeiladu gweithlu'r dyfodol a sicrhau bod cymunedau ledled Cymru yn rhannu buddion y trawsnewid i system ynni lanach, decach a mwy gwydn. Mae Gweinidogion Cymru yn ddiolchgar i'r Arweinwyr Sector ac aelodau'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen sydd wedi cyfrannu at y gwaith o ddatblygu Bargen y Sector ac wedi dod i gytundeb mwyafrifol ar ei chynnwys. Mae eu harbenigedd a'u cydweithrediad wedi bod yn amhrisiadwy.



**Rebecca Evans MS**
Ysgrifennydd y Cabinet
dros yr Economi, Ynni a Chynllunio



# 1. Cynnydd hyd yma: yr hyn sydd eisoes wedi'i wneud yng Nghymru

Mae Cymru wedi nodi llwybr uchelgeisiol ar gyfer trawsnewid i ynni adnewyddadwy, sy'n cynnwys:

- Yr ymrwymiad i sicrhau bod yr hyn sy'n cyfateb i 100% o ddefnydd trydan blynyddol Cymru yn dod o ffynonellau adnewyddadwy erbyn 2035
- Yr ymrwymiad i sicrhau bod o leiaf 1.5 gigawat o gapasiti ynni adnewyddadwy dan berchnogaeth leol erbyn 2035
- Yr uchelgais i sicrhau sector cyhoeddus carbon niwtral erbyn 2030.

Mae cyfanswm y trydan adnewyddadwy sy'n cael ei gynhyrchu yng Nghymru yn cyfateb i 53% o ddefnydd trydan Cymru ar hyn o bryd, a 27% o'r amcangyfrif o'r galw am drydan yng Nghymru yn 2035. Wrth i ddatgarboneiddio trafnidiaeth a gwresogi gyflymu a'r galw am drydan gynyddu drwy Barthau Buddsoddi ac Ardaloedd Twf AI newydd, bydd angen fflyd ynni adnewyddadwy mwy fyth a mwy amrywiol yng Nghymru, gyda chymorth y seilwaith grid sydd ei angen i drawsyrru a dosbarthu trydan i ble bynnag mae ei angen. Bydd cyflawni'r uchelgais i sicrhau bod yr hyn sy'n cyfateb i 100% o ddefnydd trydan blynyddol Cymru yn dod o ffynonellau adnewyddadwy erbyn 2035 yn dibynnu ar ba mor gyflym y gall prosiectau newydd sicrhau caniatâd, cysylltu â'r grid, sicrhau cadwyni cyflenwi a recriwtio'r gweithlu medrus sydd ei angen i'w cyflawni a'u gweithredu. Rhaid i'r system ehangu mewn ffordd gydgysylltiedig er mwyn cynyddu buddion a sicrhau bod cymunedau ledled Cymru yn gweld bod gwerth clir i gynnal seilwaith adnewyddadwy.



Mae Cymru eisoes wedi cymryd camau sylweddol ar draws y llywodraeth, diwydiant, y byd academaidd a'r system gyflenwi ehangach i baratoi ar gyfer y cynnydd hwn yn y galw. Cyflwynwyd Deddf Seilwaith Cymru 2024 gyda'r bwriad o greu un llwybr cydsyniad ar gyfer prosiectau seilwaith mawr. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) wedi dechrau cryfhau ei gapasiti cynghori a gwaith achos, gan gynnwys ym maes asesiadau amgylcheddol, asesu Rheoliadau Cynefinoedd a thrwyddedu morol, ac mae cyrff sydd yn rhoi caniatâd yn gwneud gwell defnydd o ddata amgylcheddol drwy Fap Data Cymru ac offer eraill sy'n symleiddio'r ffordd y ceir gafael ar dystiolaeth. Cydnabyddir bod pwysau ar gapasiti yn parhau mewn rhannau o'r system, gan gynnwys o fewn swyddogaethau cynghori megis y gwasanaethau cynghori sy'n cefnogi prosesau sydd yn rhoi caniatâd. Mae ymrwymiadau wedi'u gwneud o fewn y Fargen y Sector hon i fonitro'r pwysau hwn ar adnoddau a sicrhau bod capasiti yn parhau i fod yn ddigonol wrth i'r biblinell ddatblygu dyfu.

Mae cynllunio strategol ar gyfer y system drydan yng Nghymru yn mynd rhagddo ac eisoes yn llywio'r broses o wneud penderfyniadau. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Gweithredwr y System Ynni Genedlaethol (NESO) ar y Cynllun Ynni Gofodol Strategol (SSEP) ar gyfer Prydain ac yn cyfrannu at y Cynllun Rhwydwaith Strategol Canolog (CSNP) a'r Cynllun Strategol Ynni Rhanbarthol trosiannol (tRESP), gan sicrhau y bydd buddsoddiad yn y rhwydwaith a chynhyrchu ynni adnewyddadwy yn cael eu cynllunio yn y dyfodol mewn ffordd gydgysylltiedig sy'n adlewyrchu anghenion y system yn awr ac yn y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi codi pryderon am y bwlch amser rhwng y penderfyniadau ynghylch cysylltu â'r grid yn y tymor byr a chynllunio gofodol tymor hwy, gan dynnu sylw at yr angen am aliniad cryfach rhwng penderfyniadau buddsoddi ar unwaith a'r fframwaith cynllunio ynni strategol datblygol. Mae rhanddeiliaid hefyd yn parhau i bryderu y gallai oedi hir cyn uwchraddio rhwydwaith trawsyrru strategol yng Nghymru, gyfyngu'n sylweddol ar y biblinell ddatblygu yn y tymor canolig, ac y dylid gwneud mwy o ymdrech i gyflymu'r gwaith o uwchraddio'r rhwydwaith trawsyrru yn y Canolbarth.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cynnull Grŵp Cynghori Annibynnol Grid Trydan y Dyfodol i Gymru, i feithrin dealltwriaeth o'r dulliau posibl o ddarparu seilwaith trydan, datblygu sylfaen dystiolaeth gyhoeddus a sefydlu set o egwyddorion y cytunir arnynt ar gyfer nodi'r atebion mwyaf priodol i Gymru. Cyhoeddwyd adroddiad y Grŵp ar 21 Ionawr 2026. Mae Llywodraeth Cymru bellach wrthi'n ymateb i'r argymhellion.

Mae cymorth ar gyfer buddsoddiad a datblygu economaidd wedi'i hen sefydlu. Mae Banc Datblygu Cymru, Busnes Cymru a'r rhaglenni Porthladdoedd Rhydd a Pharthau Buddsoddi yn galluogi datblygwyr a chymunedau i lywio prosiectau hyfyw, gwella cyfranogiad lleol a datgloi'r cyllid sydd ei angen i gyflwyno cynlluniau. Mae datblygu sgiliau wedi datblygu drwy'r rhaglen Sgiliau Sero Net, y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol a diwygiadau a gyflwynwyd gan y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (MEDR). Mae rhaglenni cydweithredu rhwng diwydiant ac addysg, megis Destination Renewables, yn dangos ymhellach sut y gellir alinio darpariaeth hyfforddiant â chyfleoedd go iawn i'r gweithlu. Fodd bynnag, cydnabyddir y byddai mwy o gydlynu ar draws sectorau a thechnolegau yn fuddiol.

Mae Cymru hefyd yn elwa ar fframwaith sefydledig ar gyfer cyfraniad cymunedol at ynni adnewyddadwy. Mae Ynni Cymunedol Cymru, Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru ac Ynni Cymru yn darparu arbenigedd a chymorth ymarferol i grwpiau cymunedol sy'n ceisio datblygu neu fuddsoddi mewn prosiectau lleol, tra bod y timau ynni rhanbarthol y mae Llywodraeth Cymru yn eu hariannu ym mhob rhanbarth, yn helpu i gysylltu'r uchelgeisiau hyn â gwaith cynllunio system ehangach.

Mae'r sector ynni adnewyddadwy ei hun yn rhan annatod o lwyddiannau diweddar Cymru, ar ôl gwneud cynnydd da dros y degawd diwethaf drwy gyflwyno prosiectau gwynt, solar a llanw, er gwaethaf gweithredu mewn amgylchedd polisi a marchnad heriol. Mae'r adroddiadau Cynhyrchu Ynni yng Nghymru, a gyhoeddir yn flynyddol, yn nodi capasiti cynhyrchu ynni Cymru ar ddiwedd pob blwyddyn galendr ac yn dadansoddi sut y mae hyn wedi newid dros amser.

Gyda'i gilydd, mae'r sylfeini a amlinellir uchod yn darparu platfform cryf i Fargen y Sector weithredu'n effeithiol a chyflawni effaith hirdymor. Fodd bynnag, hyd yn oed gyda mwy na 1,400 MW o brosiectau ynni adnewyddadwy newydd yng Nghymru yn sicrhau cymorth yn y rownd Contractau ar gyfer Gwahaniaeth (CfD) yn ddiweddar, mae cyflymder y gweithredu sydd ei angen i ddiwallu anghenion trydan Cymru yn 2035 yn parhau i fod yn sylweddol. Felly, mae Bargen y Sector yn cynnig mecanwaith ar y cyd i fynd i'r afael â rhwystrau, alinio prosesau gwneud penderfyniadau a chyflymu'r darpariaethar draws yr holl dechnolegau adnewyddadwy. Mae'n darparu llwybr ymarferol i randdeiliaid symud ymlaen yn gyflymach, gyda mwy o eglurder a hyder, gan sicrhau bod yr argyfyngau hinsawdd a natur yn cael sylw mewn ffordd sy'n cynyddu'r manteision i Gymru. Nod arall yw darparu sylfaen sefydlog y gall unrhyw lywodraeth yn y dyfodol ei defnyddio i ystyried y newidiadau polisi sydd eu hangen i gefnogi ei blaenoriaethau.

Fel y nodwyd, bydd y ddogfen hon yn darparu'r sylfaen dystiolaeth i Lywodraeth Cymru yn y dyfodol bennu ei blaenoriaethau. Mae'n nodi ymrwymiadau a fyddai'n galluogi'r diwydiant ynni adnewyddadwy i gyfrannu'n effeithiol at gyrraedd targedau datgarboneiddio statudol a thyfu economi Cymru.

# 2. Cyflwyniad a phwrpas Bargen y Sector

Cyhoeddodd RenewableUK Cymru, ynghyd â Solar Energy UK ac Ynni Môr Cymru, 'Unleashing the Full Value of Welsh Renewables' (2025 [1]), sy'n nodi safbwyntiau'r diwydiant ar faint y cyfle economaidd sydd ar gael i Gymru os rhagorir ar y targedau ynni presennol dros y degawd i ddod. Mae'r adroddiad yn amcangyfrif y gallai cyflymu'r defnydd o ynni adnewyddadwy, o fewn yr amgylchedd polisi presennol, ddatgloi hyd at £46.9 biliwn mewn buddsoddiad preifat a chynhyrchu mwy na £10 biliwn mewn gwerth economaidd uniongyrchol i fusnesau Cymru. Mae'n nodi hefyd y byddai cynnydd cyflymach gyda phrosiectau gwynt, solar a llanw yn helpu i sicrhau ynni fforddiadwy a gynhyrchir yma yn ein gwlad, sy'n golygu na fyddai aelwydydd a busnesau Cymru yn cael eu heffeithio gymaint gan farchnadoedd ynni byd-eang anwadal.

Gan adeiladu ar hyn, mae 'Pŵer Glan Cymru: Galwad ar Lywodraeth 2026'[2] (a gyhoeddwyd gan RenewableUK Cymru) yn nodi bod diwydiant ynni adnewyddadwy Cymru mewn sefyllfa dda i gefnogi 8,000 a mwy o swyddi diogel o ansawdd uchel. Mae yna hefyd gyhoeddiadau gan y Sefydliad Materion Cymreig, ynghyd â safbwyntiau gan y sector ynni cymunedol, sy'n tynnu sylw at gyfleoedd pellach am fwy o berchnogaeth gymunedol a'r buddion ehangach y gall hyn eu cyflawni.

Mae Bargen y Sector yn cyflwyno cyfres o ymrwymiadau a chamau gweithredu y cytunwyd arnynt rhwng Llywodraeth Cymru a'r sector ynni adnewyddadwy yng Nghymru, sy'n cwmpasu paneli solar ffotofoltäig, ynni gwynt ar y tir ac ar y môr, technolegau gwynt, morol a llanw, yn ogystal ag ynni dŵr a storfeydd pwmpio, gan adlewyrchu'r ystod lawn o dechnolegau adnewyddadwy ar draws y sector, yn ogystal â chynrychiolaeth ynni cymunedol. Mae'n cyflawni uchelgais gyffredin i fanteisio i'r eithaf ar ynni adnewyddadwy yng Nghymru a'i chymunedau ac i bweru twf economaidd yn y dyfodol. Gan ddod â phartneriaid at ei gilydd ar draws saith thema, mae Bargen y Sector yn nodi sut y byddant yn gweithio gyda'i gilydd i gryfhau'r amgylchedd galluogi, ysgogi buddsoddiad, adeiladu sgiliau, darparu seilwaith grid, cefnogi arloesi a sicrhau bod cymunedau'n elwa'n uniongyrchol ar y newidiadau sydd o'n blaenau. Drwy wneud hynny, bydd yn cyfrannu at fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd, amgylcheddol a chostau ynni sy'n wynebu Cymru.

Ynghyd â Chynllun Gweithredu'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gwynt ar y Môr: 2025 i 2026, mae hyn yn rhoi eglurder ar y camau gweithredu sy'n rhaid eu rhoi ar waith i'n rhoi mewn sefyllfa gryfach i gyrraedd ein targedau ynni.

Mae Bargen y Sector yn ategu mecanweithiau sy'n gweithredu ar lefel y Deyrnas Unedig, gan gynnwys polisi ynni, cymorth refeniw ar gyfer cynhyrchu ynni carbon isel, codi tâl am drawsyrru ynni ac agweddau ar gynllunio systemau. Bydd Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar ysgogiadau datganoledig megis cynllunio, caniatáu prosiectau, sgiliau, datblygu economaidd rhanbarthol, arloesi a budd cymunedol. Bydd hefyd yn cydlynu cynrychiolaeth gyda Llywodraeth y DU a'i hadrannau perthnasol, megis yr Adran Diogeledd Ynni a Sero Net (DESNZ), Ystad y Goron, Gweithredwr y System Ynni Genedlaethol (NESO) a Swyddfa'r Marchnadoedd Nwy a Thrydan (Ofgem), lle mae angen adlewyrchu buddiannau Cymru. Mae hyn yn cynnwys materion sy'n ymwneud â Chontractau ar gyfer Gwahaniaeth, Bonws y Diwydiant Glân (CIB) a chodi tâl am ddefnyddio'r system trawsyrru ynni (TNUoS).

Mae'r sector hefyd wedi tynnu sylw at yr angen i Lywodraeth Cymru flaenoriaethu datblygu'r rhwydwaith ac egluro sut y bydd yn gweithio gyda Llywodraeth y DU a rhanddeiliaid megis Ofgem, NESO, NGET, Gweithredwyr Rhwydweithiau Dosbarthu (DNOs)/ Gweithredwyr Rhwydweithiau Dosbarthu Annibynnol (IDNOs) a chymunedau yr effeithir arnynt fel rhan o Fargen y Sector.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i eiriol bod ystyriaethau ynni cymunedol yn cael eu hadlewyrchu mewn cysylltiadau grid y rhwydwaith yn y dyfodol. Bydd gwaith cydlynu Llywodraeth Cymru hefyd yn ymestyn i ymgysylltu â phartneriaid strategol megis Banc Busnes Prydain, Banc Datblygu Cymru, Great British Energy (GBE) a'r Gronfa Gyfoeth Wladol (NWF) i sicrhau bod prosiectau Cymru yn gallu cael mynediad at ffrydiau cyflenwi a chyfleoedd buddsoddi datblygol.

1 **2329-renewable-energy-in-wales-report.pdf**
2 **Cymru clean power: Call for Government 2026**

# 3. Arweinwyr rhanddeiliaid

Mae Bargen y Sector wedi'i llywio gan fewnbwn helaeth gan sefydliadau ledled Cymru. Dewiswyd y rhai dan sylw oherwydd eu bod ar hyn o bryd ymhlith y rhai mwyaf gweithgar o ran cynhyrchu ynni adnewyddadwy. Roedd yr aelodau'n cynnwys datblygwyr, arweinwyr technoleg a chynrychiolwyr o gymdeithasau masnach perthnasol, a gofynnwyd i bob un ohonynt ystyried eu buddiannau technoleg eu hunain ac anghenion ehangach y system ynni adnewyddadwy yng Nghymru. Aethant ati i ymgysylltu â chydweithwyr ar draws eu diwydiannau gan adrodd yn ôl i'r Grŵp, gan gydnabod eu bod yn cynrychioli trawstoriad o'r sector yn hytrach na'r holl gyfranogwyr. O dan y Cylch Gorchwyl (gweler Atodiad 1, sydd hefyd yn cynnwys rhestr o aelodau), nod cyffredinol y Grŵp oedd cynghori Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio ar ymrwymiadau a fyddai'n cynnal amgylchedd cadarnhaol ar gyfer datblygu ynni adnewyddadwy yng Nghymru, gan ddiogelu'r amgylchedd naturiol a chefnogi buddiannau cymunedol ar yr un pryd.

Rôl y Grŵp oedd darparu asesiad gonest, seiliedig ar dystiolaeth o'r gallu i gynhyrchu ynni adnewyddadwy ar draws technolegau, nodi meysydd blaenoriaeth a allai ddatgloi gwerth economaidd a chymdeithasol, a datblygu ymrwymiadau clir gyda chamau gweithredu, amserlenni a pherchnogion i'w cynnwys ym Margen y Sector. Wrth lywio'r ymrwymiadau hyn, bu'r Grŵp yn ystyried camau gweithredu a buddsoddiadau diweddar er mwyn sicrhau bod y rhwystrau sy'n weddill yn cael eu datrys ac osgoi dyblygu gweithgarwch sydd eisoes ar y gweill yng Nghymru neu ar lefel y DU. Tynnodd y broses ar waith a wnaed gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gwynt ar y Môr, Map Trywydd Solar a Strategaeth Gwynt ar y Tir Llywodraeth y DU, a Thasglu Morol y DU.

Roedd y Grŵp hefyd yn adlewyrchu anghenion datblygwyr, yn enwedig mewn perthynas â chydsynio prosiectau a grid, cadwyni cyflenwi a sgiliau, i sicrhau bod cynnwys terfynol Bargen y Sector wedi'i seilio ar realiti cyflawni yn ymarferol. Er nad oedd modd cynnwys yr holl randdeiliaid wrth ddatblygu Bargen y Sector, y bwriad yw i'r sector cyfan gymryd rhan wrth i'r gweithredu fynd rhagddo, gydag Arweinwyr y Sector a chyrff masnach y diwydiant yn gweithredu fel cwndidau i gasglu a bwydo mewnbwn ehangach i Fargen y Sector.



# 4. Strwythur Bargen y Sector

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo'n gryf i ddatblygu ynni adnewyddadwy a charbon isel ar draws pob technoleg ac ar bob graddfa i ddiwallu anghenion ynni Cymru yn y dyfodol. Mae Bargen y Sector wedi'i threfnu o amgylch saith thema sy'n adlewyrchu'r meysydd lle mae camau gweithredu cydgysylltiedig yn fwyaf hanfodol:

1. yr amgylchedd galluogi;
2. amodau'r farchnad a buddsoddi;
3. sgiliau a'r gweithlu;
4. y grid yng Nghymru;
5. arloesi ac ymchwil;
6. seilwaith a chadwyni cyflenwi; a
7. pherchnogaeth gymunedol a buddion cymunedol.

Datblygwyd y themâu hyn gyda Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mewn golwg, fel y dangosir yn y tabl isod, sy'n nodi'r nodau llesiant cyfatebol yn erbyn pob thema. Gan nad dogfen bolisi yw hon, nid oes asesiad effaith llawn wedi'i gynnal, er bod yr asesiad effaith integredig wedi llywio datblygiad Bargen y Sector. Mae'r themâu hefyd wedi'u halinio â Chynllun Gweithredu'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gwynt ar y Môr.

Rhaid i Fargen y Sector gyflawni yn erbyn y nodau llesiant a'r pum ffordd o weithio, sef meddwl yn hirdymor, atal, integreiddio, cydweithio a chymryd rhan. Mae gan Fargen y Sector y potensial i fod yn drawsnewidiol ar draws y nodau hyn drwy wireddu'r cyfleoedd economaidd-gymdeithasol ac amgylcheddol y gall defnyddio ynni adnewyddadwy eu cynnig. Mae'r rhain yn cynnwys lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr, creu swyddi a chyfleoedd hyfforddi, darparu gwerth cymdeithasol ac adfywio drwy gontractau, lleihau tlodi tanwydd, cryfhau cydlyniant cymunedol a chefnogi ecosystemau iach.

| Thema | Cyfraniad posibl at Nodau Llesiant Cymru |
|---|---|
| 1. Amgylchedd Galluogi (Polisi/ Rheoleiddio) | Cymru lewyrchus; Cymru gydnerth; Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang; Cymru o gymunedau cydlynus |
| 2. Creu Marchnadoedd (Buddsoddi/Ariannu) | Cymru lewyrchus; Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang |
| 3. Sgiliau a'r Gweithlu | Cymru lewyrchus; Cymru gydnerth; Cymru iachach; Cymru fwy cyfartal; Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang; Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu |
| 4. Y Grid yng Nghymru | Cymru lewyrchus; Cymru gydnerth; Cymru fwy cyfartal; Cymru iachach; Cymru o Gymunedau cydlynus |
| 5. Arloesi ac Ymchwil | Cymru lewyrchus; Cymru gydnerth; Cymru iachach; Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Byd-eang |
| 6. Seilwaith a Chadwyni Cyflenwi | Cymru lewyrchus; Cymru gydnerth; Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang; Cymru o Gymunedau cydlynus |
| 7 Perchnogaeth Gymunedol a Buddion Cymunedol | Cymru o gymunedau cydlynus; Cymru lewyrchus; Cym-ru gydnerth; Cymru iachach; Cymru fwy cyfartal; Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu |

Mae Bargen y Sector yn berthnasol ar draws nifer o dechnolegau ynni adnewyddadwy yng Nghymru, pob un â blaenoriaethau tymor byr gwahanol. Er enghraifft, mae datblygwyr ynni gwynt a solar ar y tir wedi pwysleisio prosesau cydsynio ac amseru cysylltu â'r grid, tra bod datblygwyr ynni morol, llanw a gwynt arnofiol ar y môr wedi tynnu sylw at gyllid cynnar, sgiliau ac arloesi fel eu hanghenion mwyaf dybryd. Nododd rhanddeiliaid hefyd fod blaenoriaethau yn newid fesul cam y prosiect, megis rhwng y cyfnod cyn cynllunio a'r cyfnod ar ôl cael caniatâd cynllunio.

O ystyried yr amrywiad hwn, ni fyddai un hierarchaeth sefydlog o ymrwymiadau yn adlewyrchu anghenion gwahanol y sector ehangach. Yn amodol ar gytundeb gan y Llywodraeth yn y dyfodol, y bwriad yn ystod cam gweithredu cynnar Bargen y Sector yw y bydd Arweinwyr y Sector yn datblygu matrics blaenoriaethu ymrwymiadau sy'n ymarferol ac yn benodol i dechnoleg. Bydd hyn yn cael ei ddatblygu mewn cydweithrediad â rhanddeiliaid grwp Gorchwyl a Gorffen i lywio a threfnu camau gweithredu lle ystyrir eu bod yn darparu'r gwerth gorau.

Bydd y matrics hwn yn cymhwyso profion cyffredin, a fydd yn cael eu mireinio ymhellach gan randdeiliaid yn ystod eu gwaith gweithredu, megis a yw cam gweithredu yn dileu rhwystr critigol, yn lleihau'r risg buddsoddi neu a oes modd ei gyflawni yn y tymor byr, gan sicrhau bod ymdrech yn canolbwyntio ar y fan y bydd yn cael yr effaith fwyaf ar bob technoleg. Er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflawni targedau Cymru ar gyfer 2035 a phwrpas ehangach Bargen y Sector, cydnabyddir y dylid blaenoriaethu'n briodol ymrwymiadau sy'n ymwneud â thechnolegau ar raddfa fawr sy'n gallu gwneud y cyfraniad tymor byr mwyaf at amcanion hinsawdd, amgylcheddol a chostau byw.

Bydd mecanwaith rheoli newid ffurfiol, a gynigir o fewn trefniadau llywodraethu y Fargen y Sector hon (gweler Adran 9), yn sicrhau y gall y fframwaith addasu i amodau polisi a marchnad sy'n esblygu.

Mae pob thema a gyflwynir isod yn cynnwys paragraffau cefndir cryno sy'n amlinellu'r hyn sydd eisoes wedi'i gyflawni, y cyfleoedd sy'n bodoli a'r gwerth ychwanegol y bydd Bargen y Sector yn ei gynnig.

# 5. Blaenoriaethau trawsbynciol

Nodwyd materion trawsbynciol drwy'r trafodaethau. Mae'r rhain yn berthnasol ar draws pob thema a thechnoleg a byddant yn sail i'r gwaith cyflawni drwy Fargen y Sector. Pwysleisiodd y trafodaethau y blaenoriaethau canlynol:

### 5.1.1 Sefydlogrwydd polisi a chanllawiau cyson a gwneud penderfyniadau

Tynnodd y cyfranogwyr sylw at yr angen am bolisi a chanllawiau clir, ymarferol ac wedi'u trefnu'n dda sy'n cael eu datblygu ar y cyd ac yn destun ymgynghoriad cyn eu cyhoeddi. Mae canllawiau o'r fath yn cefnogi ceisiadau o ansawdd uchel ac yn sicrhau asesiad cymesur a chyson. Mae meysydd allweddol a nodwyd gan gyfranogwyr yn cynnwys eglurder ar ofynion asesu amgylcheddol, y cydbwysedd rhwng bioamrywiaeth ac amcanion enillion net, cyflawni sero net ac eglurhad ar sut y dylai datblygu ryngweithio â safleoedd mawndir. Cydnabyddir bod polisi a chanllawiau clir a phrosesau gwneud penderfyniadau cyson yn bwysig er mwyn rhoi sicrwydd i fuddsoddwyr a sicrhau ymrwymiad i brosiectau.

Fel rhan o'r gwaith o ddatblygu unrhyw ganllawiau newydd sy'n benodol i Gymru, awgrymodd rhanddeiliaid y dylid defnyddio gwiriad cystadleurwydd i sicrhau nad yw gofynion ychwanegol yn rhoi prosiectau Cymru dan anfantais yn anfwriadol yn arwerthiannau cymorth refeniw neu farchnadoedd ariannu'r DU. Bydd angen dull cydweithredol wrth weithredu Bargen y Sector i bennu sut y mae'r gwiriad hwn yn cael ei ddatblygu, ei asesu a'i gymhwyso.



## 5.1.2. Sylfaen dystiolaeth amgylcheddol gyffredin a chapasiti cynghori digonol

Pwysleisiodd trafodaethau bwysigrwydd gwella mynediad at dystiolaeth amgylcheddol gyson, o ansawdd uchel er mwyn lleihau oedi ac ansicrwydd. Bydd Llywodraeth Cymru a CNC yn parhau i gryfhau'r gwaith casglu tystiolaeth a'r data sydd ar gael, gan ategu ffynonellau presennol gyda data a ddarperir gan y diwydiant ynni adnewyddadwy. Pan fo pwysau gwaith achos yn gofyn am gapasiti ychwanegol, ystyrir opsiynau ar gyfer cymorth cynghori allanol o dan Fargen y Sector (gan gynnwys cymorth i Awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLlau)) i sicrhau ymatebion amserol wrth gynnal annibyniaeth reoleiddiol.

Gall datblygwyr eisoes ymrwymo i gytundebau gydag awdurdodau cynllunio lleol, megis Cytundebau Gwasanaethau Cynllunio (PSAs). Er enghraifft, yn y Gogledd mae datblygwyr wedi cyfuno cyllid i gefnogi'r gwasanaeth cynllunio rhanbarthol ar gyfer prosiectau ynni sylweddol. Nid y mecanwaith ei hun yw'r mater allweddol, ond sicrhau bod gan ACLlau yr adnoddau i ddarparu'r lefel o gymorth y bwriedir i PSAs ei ddarparu. Mae ymrwymiadau i fonitro a mynd i'r afael â heriau o ran capasiti ac adnoddau wedi'u cynnwys ym Margen y Sector ac, os bydd y mesurau hyn yn profi'n effeithiol, maen nhw'n debygol o leihau'r angen am PSAs wrth i'r gwaith o weithredu Bargen y Sector fynd rhagddo.

## 5.1.3. Ymgysylltu'n gynnar ac ansawdd ceisiadau

Ar draws y trafodaethau, ystyriwyd bod ymgysylltu'n gynharach ac yn fwy cyson rhwng datblygwyr, cyrff sydd yn gwneud pernderfyniadau a chymunedau lleol yn hanfodol i wella ansawdd ceisiadau a lleihau oedi y gellir ei osgoi. Bydd Bargen y Sector yn helpu i safoni'r arferion hyn. Bydd diogelu llwybrau awyrennau a radar hefyd yn cael ei gryfhau drwy ymgysylltu strwythuredig a thryloyw gyda'r Gwasanaethau Traffig Awyr Cenedlaethol (NATS) a'r Awdurdod Hedfan Sifil (CAA), gan alluogi nodi unrhyw gamau lliniaru sydd eu hangen yn gynnar.

## 5.1.4. Cydlyniant rhwng prosiectau cynhyrchu a'r grid trydan

Pwysleisiodd y cyfranogwyr yr angen am aliniad agosach rhwng piblinellau prosiect a datblygu'r grid. Drwy eiriolaeth, bydd Bargen y Sector yn helpu i sicrhau bod penderfyniadau ciw cysylltu yn cael eu halinio â'r SSEP. Tynnwyd sylw hefyd at ddylanwad signalau TNUoS ar hyfywedd prosiectau a'r broses o ddewis lleoliadau yng Nghymru.

## 5.1.5. Safbwyntiau cydgysylltiedig ar ddiwygiadau ar lefel y DU

Nododd y trafodaethau bwysigrwydd Llywodraeth Cymru a'r diwydiant yn cydlynu eu safbwyntiau, i'r graddau y bo modd, lle mae diwygiadau ar lefel y DU yn dylanwadu ar hyfywedd prosiectau yng Nghymru, gan gynnwys Cynllun Gweithredu Pŵer Glân 2030, SSEP, tRESP, CSNP, Contractau ar gyfer Gwahaniaeth, Bonws y Diwydiant Glân a chodi tâl am ddefnyddio'r system trawsyrru ynni (TNUoS). Bydd Bargen y Sector hefyd yn sicrhau bod Llywodraeth Cymru a'r diwydiant yn gweithio gyda'i gilydd i lywio pecynnau cyllido sy'n denu buddsoddiad preifat, gan gynnwys drwy ymgysylltu â GBE a'r NWF.

## 5.1.6. Fframweithiau budd cymunedol teg a hyblyg.

Roedd cydnabyddiaeth eang o bwysigrwydd trefniadau budd cymunedol sy'n deg, yn hyblyg ac yn gymesur â chapasiti a blaenoriaethau lleol. Bydd ymgysylltu â'r gymuned yn cael ei wreiddio yn y gwaith o ddatblygu offer, canllawiau ac arferion da wrth i Fargen y Sector esblygu.



3
4

# 6. Mathau o ymrwymiadau ym Margen y Sector

Mae Bargen y Sector yn adeiladu ar dirwedd sydd eisoes yn newid. Ei bwrpas yw dod â strwythur ac eglurder i'r trawsnewidiad hwn drwy alinio ysgogiadau penodol i Gymru â systemau ynni'r DU a sicrhau bod gwaith cyflawni'n digwydd yn effeithiol ar lawr gwlad.

Mae gwaith cyflawni yn cael ei drefnu drwy dri math gwahanol o ymrwymiadau:

- Mae ymrwymiadau Llywodraeth Cymru yn nodi'r camau y gallai Llywodraeth Cymru ei cymryd o fewn cyfrifoldebau datganoledig, megis cynllunio, cydsynio, sgiliau a budd cymunedol.
- Mae ymrwymiadau'r sector yn disgrifio'r camau y bydd datblygwyr, gweithredwyr a chwmnïau cadwyn gyflenwi yn eu cymryd i gynllunio a chyflawni prosiectau yn gyfrifol, i fuddsoddi mewn sgiliau a gallu, i godi ansawdd ceisiadau ac i rannu gwybodaeth am biblinellau.
- Mae ymrwymiadau cyffredin yn nodi lle y mae Llywodraeth Cymru a'r sector yn cydweithio â'i gilydd, megis wrth gyd-ddatblygu ac ymgynghori ar ganllawiau, creu a defnyddio sylfaen dystiolaeth amgylcheddol gyffredin a chynrychiolaeth ar y cyd o fuddiannau Cymru ym mhrosesau'r Deyrnas Unedig, ynghyd â chynnal cofrestr genedlaethol o brosiectau sy'n manylu ar gynhyrchu ynni a darparu budd cymunedol.

Os na chyfeirir yn benodol at sector mewn ymrwymiad, mae hyn yn golygu bod yr ymrwymiad yn berthnasol i bob sector.

# 7. Amserlenni

Mae'r 78 ymrwymiad a wnaed o dan y saith thema wedi'u cyflwyno yn Atodiad 1 o'r ddogfen hon. Mae gan bob ymrwymiad berchnogion clir, amserlen ddiffiniedig a bydd yn cael ei adrodd drwy drefniadau llywodraethu a gweithredu Bargen y Sector (gweler Adran 9). Mae amserlenni wedi'u neilltuo yn unol â'r gorwelion cyflawni y cytunwyd arnynt gydag Arweinwyr y Sector, gyda rhai camau gweithredu yn dechrau ar unwaith ac eraill yn parhau i mewn i dymor Llywodraeth nesaf Cymru. Drwy nodi gorwelion cyflawni tymor byr, tymor canolig a hirdymor clir, mae Bargen y Sector yn ceisio darparu sicrwydd i fuddsoddwyr, cymunedau a chyrff cyflawni ar draws cylchoedd gwleidyddol, gan gefnogi cynllunio hirdymor a hyder. Bwriedir i gamau gweithredu tymor byr ddechrau ar unwaith a chael eu cwblhau o fewn y 6 i 12 mis cyntaf ar ôl gweithredu Bargen y Sector (oni nodir eu bod yn barhaus), camau gweithredu tymor canolig o fewn 12 i 24 mis a chamau gweithredu tymor hwy o fewn 24 mis neu fwy.

Wrth weithredu, bydd matrics blaenoriaethu ar gyfer pob technoleg, ynghyd â chynlluniau cyflawni, yn nodi cerrig milltir, perchnogion cyfrifol, dibyniaethau, risgiau a DPA. Cydnabyddir y bydd gwaith cyflawni yn y pen draw yn dibynnu ar flaenoriaethau'r weinyddiaeth nesaf, ac y bydd ymrwymiadau'n cael eu mireinio i fod yn fwy penodol a chanolbwyntio mwy ar ganlyniadau drwy'r Grwpiau Gorchwyl a Gorffen.

# 8. Y themâu

Fel yr amlinellir yn Adran 4, mae'r gwahanol flaenoriaethau tymor byr ar draws technolegau a'r ffordd y mae'r blaenoriaethau hyn yn newid ar wahanol gamau prosiect yn golygu na ddylid dehongli'r themâu a gyflwynir isod fel hierarchaeth. Yn hytrach, maen nhw'n cynrychioli'r set o themâu a ddatblygwyd drwy drafodaethau cychwynnol ym Margen y Sector ac yn darparu'r fframwaith ar gyfer blaenoriaethu ymrwymiadau penodol i dechnoleg.

## 8.1. Amgylchedd galluogi, polisi, rheoleiddio a chydsynio

### 8.1.1. Beth sy'n cael ei wneud eisoes

Mae Cymru wedi moderneiddio ei fframwaith cydsynio a rheoleiddio yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae Deddf Seilwaith (Cymru) 2024 wedi cyflwyno llwybr cydsynio integredig ar gyfer prosiectau seilwaith mawr, gan gryfhau effeithlonrwydd a chysondeb y broses o wneud penderfyniadau. Mae CNC wedi ehangu ei allu i reoli asesiadau o'r effaith amgylcheddol ac Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd ac wedi gwella prosesau ar gyfer trwyddedu morol. Mae cyrff cydsynio hefyd wedi gwella mynediad at ddata drwy blatfformau megis Map Data Cymru.

Ar yr un pryd, mae gwaith ar y gweill i foderneiddio canllawiau cynllunio. Mewn ymgynghoriad â'r diwydiant, mae Llywodraeth Cymru wedi adolygu meysydd allweddol, gan gynnwys gofynion asesu o'r effaith amgylcheddol, y cydbwysedd rhwng bioamrywiaeth ac amcanion sero net ehangach, a'r broses o drin mawndir. Mae datblygwyr ac awdurdodau cydsynio yn mabwysiadu trafodaethau cwmpasu cynharach i wella ansawdd ceisiadau a lleihau oedi wrth wneud penderfyniadau.

Ceisiodd Cymru'r Dyfodol (Y Cynllun Cenedlaethol 2040) ddarparu fframwaith polisi cadarn a chefnogol ar gyfer prosiectau ynni gwynt ar y tir a phrosiectau ynni adnewyddadwy eraill sy'n cyfrannu at dargedau sero net Cymru. Nododd gyfres o Ardaloedd wedi'u Rhagasesu (PAAs), yn seiliedig ar waith technegol a gomisiynwyd gan Arup (Asesiad o botensial ynni gwynt a solar ar y tir yng Nghymru) ar gyfer tyrbinau gwynt ar y tir lle roedd yr effeithiau tebygol ar y dirwedd eisoes wedi'u modelu, gan ganfod bod y tir yn addas ar gyfer datblygiad ar raddfa fawr, gan gynnwys tyrbinau hyd at 250m i frig y llafn. O fewn yr ardaloedd hyn, mae rhagdybiaeth o blaid datblygu ynni gwynt ar raddfa fawr, gan gynnwys adbweru, yn amodol ar y fframwaith gwneud penderfyniadau a nodir ym Mholisi 18. Y tu allan i'r ardaloedd hyn, mae cyd-destun polisi cadarnhaol yn dal i fod yn berthnasol, unwaith eto yn amodol ar Bolisi 18. Mae'r diwydiant wedi codi pryderon y gallai'r PAAs hyn fod wedi'u tanseilio gan ddiweddariadau i Bolisi Cynllunio Cymru ar ôl hynny.

Disgwylir mwy o eglurder yn 2026. Er enghraifft, bydd asesiad statudol o Cymru'r Dyfodol, gan gynnwys y fframwaith polisi o amgylch y PAAs, yn cael ei gynnal i bennu a oes angen diwygio unrhyw elfennau. Gall y broses hon nodi agweddau penodol ar Cymru'r Dyfodol y dylid eu hailystyried, er y gall ddod i'r casgliad nad oes angen gwneud unrhyw newidiadau. Ar ben hynny, mae Deddf Seilwaith (Cymru) 2024, yn atgyfnerthu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i benderfynu'n effeithlon ac yn effeithiol ar geisiadau seilwaith ar raddfa fawr drwy ddarparu proses gydsynio fodern sy'n gallu darparu cydsyniadau amserol. Er mwyn sicrhau bod y system yn barod o'r diwrnod cyntaf, darparwyd cyllid yn 2025 i gryfhau capasiti cynllunio o fewn PEDW a CNC.

Mae'r system hefyd yn galluogi symud tuag at adennill costau llawn, gan sicrhau bod gan gyrff sector cyhoeddus adnoddau priodol i benderfynu ar geisiadau'n effeithlon ac yn effeithiol, gyda'r nod o gwblhau'r holl benderfyniadau o fewn neu cyn yr amserlen statudol o 52 wythnos.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi ariannu dwy rôl uwch gynllunydd newydd i gefnogi prosiectau seilwaith drwy Wasanaeth Cynllunio ar y cyd estynedig i Ogledd Cymru, gan gydnabod y manteision y gall cydweithio rhanbarthol eu cyflwyno i geisiadau cymhleth. Mae cynnig amlinellol hefyd wedi dod i law gan y Canolbarth, a chroesewir datganiadau pellach o ddiddordeb ynghylch cydweithio.

Mae hyfforddiant hefyd ar y gweill i awdurdodau lleol ac ymgyngoreion statudol ar y system gydsynio newydd i sicrhau eu bod wedi'u harfogi'n llawn i gyfrannu'n effeithiol at y broses.

#### 8.1.2. Pam mae hyn yn bwysig a beth mae Bargen y Sector yn ei ychwanegu

Mae'r amgylchedd galluogi yn pennu pa mor gyflym y gellir cyflawni prosiectau adnewyddadwy, a bydd yr ymrwymiadau o Fargen y Sector yn ceisio cryfhau hyn drwy atgyfnerthu gwaith diweddar a chefnogi cyd-ddatblygu polisi a chanllawiau clir ar gyfer darparu ynni adnewyddadwy. Bydd canllawiau yn egluro sut y dylai datblygiadau ryngweithio â mawndiroedd. Bydd hefyd yn helpu i ffurfioli arferion cwmpasu cynnar, gan gynnwys ymgysylltu mewn modd strwythuredig a thryloyw â'r Gwasanaethau Traffig Awyr Cenedlaethol a'r Awdurdod Hedfan Sifil, a bydd yn hyrwyddo gwell defnydd o ddata fel bod ceisiadau'n cael eu hasesu'n gyson ac yn gymesur.

Bydd Bargen y Sector yn creu cyfleoedd pwysig i gryfhau aliniad polisi ar draws adrannau, gan roi mwy o eglurder a hyder i fuddsoddwyr a chynnal dehongliad cyson o bolisïau cynllunio. Bydd yn ymwreiddio dull mwy strategol o gydsynio, yn enwedig ar gyfer ynni gwynt ar y môr, lle bydd ymgysylltu cynharach a llwybrau penderfynu cliriach yn cefnogi cynnydd amserol. Gan fod datblygwyr bellach yn cyfrannu ffioedd ychwanegol am fewnbwn cynghori, mae'n hanfodol bod hyn yn darparu gwelliannau amlwg o ran prydlondeb ac ansawdd gwasanaeth. Nod ymrwymiadau sy'n ymwneud â monitro ac adolygu yw sicrhau bod y system yn parhau i fod yn effeithlon, yn gymesur a bod ganddi'r adnoddau digonol wrth i'r defnydd gynyddu.

Yn ogystal, bydd Bargen y Sector yn galluogi cydweithio ar atebion ymarferol i ddatgloi defnydd o ynni adnewyddadwy ar y tir a chefnogi cyflwyno ffrydiau gwaith asesu amgylcheddol mewn ffordd dryloyw, symlach. Bydd Bargen y Sector hefyd yn annog trawsnewid digidol a chynllunio'r gweithlu ar draws gwasanaethau cynllunio i wella effeithlonrwydd, gallu a thryloywder.

## 8.2. Creu marchnadoedd, buddsoddi a chymorth cyllid

#### 8.2.1. Beth sy'n cael ei wneud eisoes

Mae gan Gymru ystod o fentrau sy'n cefnogi datblygiad prosiectau adnewyddadwy, gan gynnwys Banc Datblygu Cymru, Busnes Cymru, Porthladdoedd Rhydd a Pharthau Buddsoddi, Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru a Trydan Gwyrdd Cymru. Mae'r mentrau hyn yn helpu i lywio prosiectau hyfyw ac yn galluogi cwmnïau lleol a chadwyni cyflenwi ehangach i gymryd rhan yn effeithiol yn y gwaith cyflawni. Mae Llywodraeth Cymru a phartneriaid y diwydiant hefyd yn cymryd rhan mewn trafodaethau ar lefel y DU ar fecanweithiau cymorth refeniw megis Contractau ar gyfer Gwahaniaeth ac ar gymhellion i'r cadwyni cyflenwi.

Mae asiantaethau datblygu economaidd yng Nghymru yn parhau i weithio gyda phorthladdoedd, gweithgynhyrchwyr a darparwyr gwasanaethau i baratoi ar gyfer cyfleoedd yn y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys helpu cwmnïau i ddeall gofynion piblinell sydd ar ddod a chefnogi gwaith dichonoldeb lle bo hynny'n briodol.

#### 8.2.2. Pam mae hyn yn bwysig a beth mae Bargen y Sector yn ei ychwanegu

Mae Bargen y Sector yn rhoi cyfle i ymgymryd â gwaith eiriolaeth gyda'r nod o wella gwelededd piblinellau ar gyfer ystod o bartneriaid, gan gynnwys Ystad y Goron, Banc Datblygu Cymru, GBE a'r NWF. Bydd hyn yn galluogi Llywodraeth Cymru i weithio gyda phartneriaid i lywio pecynnau cyllido penodol i dechnoleg ac i ddatblygu canllawiau clir ar y cyllid cyhoeddus a phreifat sydd ar gael ar gyfer pob technoleg. Bydd y gwaith eiriolaeth arfaethedig hefyd yn cryfhau achos Cymru dros ddyraniadau Contractau ar gyfer Gwahaniaeth yn y dyfodol, yn enwedig ar gyfer ffrwd lanw, lle gofynnwyd yn benodol i Lywodraeth Cymru am y cymorth hwn. Rhagwelir y bydd ymrwymiadau Bargen y Sector yn cefnogi ehangu ynni glân cymunedol a lleol drwy helpu i integreiddio modelau rhanberchnogaeth a chyllido ynni cymunedol arfaethedig mewn strategaethau buddsoddi ehangach, fel y rhagwelwyd yng Nghynllun Pŵer Lleol Llywodraeth y DU.

## 8.3. Sgiliau a'r gweithlu

### 8.3.1. Beth sy'n cael ei wneud eisoes

Mae datblygu sgiliau wedi'i gryfhau drwy'r agenda Sgiliau Sero Net, y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol a'r gwaith a gyflawnir gan y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil. Mae partneriaethau rhwng darparwyr addysg a diwydiant, megis Destination Renewables, wedi dangos sut y gellir alinio cynllunio'r cwricwlwm, cyfleusterau dysgu a lleoliadau cyflogwyr ag anghenion disgwyliedig y gweithlu. Mae Cymru hefyd wedi dechrau gwella gwybodaeth am y farchnad lafur ac ehangu ymwybyddiaeth o lwybrau gyrfa ynni adnewyddadwy.

Mae Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid hefyd yn archwilio opsiynau i adeiladu piblinell gryfach o diwtoriaid mewn pynciau lle mae'r capasiti'n brin, gan gynnwys peirianneg a disgyblaethau digidol, ac mae trafodaethau ar y gweill ar greu un platfform sy'n dwyn ynghyd lwybrau hyfforddi a swyddi gwag.

### 8.3.2. Pam mae hyn yn bwysig a beth mae Bargen y Sector yn ei ychwanegu

Bydd maint y seilwaith ynni adnewyddadwy a gynlluniwyd ar gyfer Cymru yn gofyn am weithlu mwy o ran maint a gweithlu y gellir ei addasu fwyfwy dros y degawd nesaf. Bydd Bargen y Sector yn cydlynu'r ymateb sgiliau cenedlaethol drwy gysylltu'r ddarpariaeth hyfforddiant â'r biblinell prosiectau adnewyddadwy a dilyniannu grid, bydd yn cefnogi'r diwydiant i fynegi anghenion hirdymor y gweithlu ac yn sicrhau bod cyfleoedd yn hygyrch ym mhob cam gyrfa. Bydd hefyd yn hyrwyddo ymgysylltu cynnar cyson ag ysgolion ac yn annog datblygu canolfannau rhanbarthol sy'n cyd-fynd â'r biblinell ddatblygu a'r gofynion o ran y gweithlu yn y dyfodol.

Drwy Fargen y Sector, bydd cynllun gweithlu deng i bymtheng mlynedd yn cael ei ddatblygu i alinio'r ddarpariaeth sgiliau â thargedau defnydd a gwella'r cydlynu rhwng Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol a Gyrfa Cymru i gryfhau ymgysylltiad cynnar â Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg (STEM). Bydd hefyd yn creu cwmpas i sefydlu strategaeth piblinell genedlaethol o diwtoriaid, bydd yn datblygu map trywydd ar gyfer prentisiaethau ac adnoddau hyfforddi dwyieithog, yn ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf drwy raglenni llysgenhadon ac ymgysylltu ag ysgolion, ac yn cefnogi'r symudiadau canol gyrfa i'r sector ynni adnewyddadwy o ddiwydiannau eraill.



## 8.4. Y grid yng Nghymru

### 8.4.1. Beth sy'n cael ei wneud eisoes

Mae Cymru'n cymryd rhan weithredol yn y gwaith o gynllunio systemau strategol. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi cyflawni gwaith cynllunio ynni ar lefelau cenedlaethol (Cymru'r Dyfodol), rhanbarthol a lleol, er mwyn darparu sylfaen dystiolaeth i gefnogi cynllunio'r grid. Mae Llywodraeth Cymru a'r diwydiant wedi cymryd rhan yng ngwaith NESO o ddatblygu'r SSEP a gomisiynwyd gan Lywodraethau Cymru, Lloegr a'r Alban, ac mae cyfraniadau hefyd wedi'u gwneud at y CSNP a tRESP, a fydd yn sail i benderfyniadau buddsoddi yn y dyfodol. Mae gwaith cynghori ar sut y dylid darparu seilwaith grid newydd yng Nghymru wedi cyflwyno adroddiad, a bydd Llywodraeth Cymru yn ymateb maes o law ar gamau gweithredu i gyflawni'r argymhellion.

Mae safbwynt polisi cliriach hefyd yn hanfodol ar gyfer cydsynio a darparu'r seilwaith grid sydd ei angen er mwyn ateb galw cynyddol Cymru am drydan ac fel y gellir cynhyrchu'r ynni adnewyddadwy sydd ei angen i gyflenwi'r trydan hwnnw.

### 8.4.2. Pam mae hyn yn bwysig a beth mae Bargen y Sector yn ei ychwanegu

Mae capasiti'r rhwydwaith, amseru cysylltu ac atebion cysylltu y gellir eu cyflawni yn dechnegol ac yn fasnachol i gyd yn hollbwysig ar gyfer hyfywedd prosiectau adnewyddadwy. Mae Bargen y Sector yn creu cyfleoedd i roi mewnbwn i NESO ac Ofgem fel bod blaenoriaethau Cymru yn cael eu hymwreiddio yn y cynlluniau ynni SSEP a rhanbarthol, ac i weithio gyda NESO a gweithredwyr rhwydweithiau dosbarthu i sicrhau nad yw prosiectau ar lefel dosbarthu yn profi oedi diangen. Mae hefyd yn darparu platfform i gytuno ar fap trywydd uwchraddio'r grid yng Nghymru gyda thargedau capasiti ac amserlenni clir, i gynnig mwy o eglurder ar gydsyniad ar gyfer seilwaith grid a chydlynu eiriolaeth ar gyfer y cysylltiadau mawr arfaethedig rhwng y gogledd a'r de a mesurau gwydnwch ehangach sydd eu hangen i ddiogelu'r rhwydwaith at y dyfodol.

Bydd Llywodraeth bresennol Cymru yn ymateb yn ffurfiol i adroddiad y Grŵp Cynghori Annibynnol ar Grid Trydan y Dyfodol i Gymru, gan gefnogi Llywodraeth nesaf Cymru i benderfynu sut i fwrw ymlaen â chanfyddiadau ac argymhellion y Grŵp.

## 8.5. Arloesi ac ymchwil, gan gynnwys economi gylchol a datgomisiynu

### 8.5.1. Beth sy'n cael ei wneud eisoes

Mae gan Gymru blatfform cryf ar gyfer arloesi drwy Cymru'n Arloesi, sy'n nodi cenhadaeth genedlaethol ar gyfer ymchwil a datblygu. Mae rhaglenni megis SMART, y Gronfa Economi Gylchol a Phartneriaethau Trosglwyddo Gwybodaeth yn darparu cymorth ymarferol i fusnesau a phrifysgolion, ac mae ymchwil weithredol ar y gweill mewn meysydd sy'n cynnwys ynni'r môr, technolegau grid digidol a sicrhau bod deunyddiau yn gylchol. Mae sefydliadau yng Nghymru hefyd yn dechrau archwilio anghenion datgomisiynu ac adbweru asedau adnewyddadwy yn y dyfodol, gan gydnabod pwysigrwydd arloesi ar draws cylch bywyd llawn technolegau.

### 8.5.2. Pam mae hyn yn bwysig a beth mae Bargen y Sector yn ei ychwanegu

Mae arloesi yn lleihau'r risg a'r gost, yn gwella perfformiad amgylcheddol ac yn creu cyfleoedd i gadwyni cyflenwi Cymru. Bydd Bargen y Sector yn helpu i alinio cryfderau arloesi Cymru â chyllid ymchwil ac arloesi ehangach y DU, yn hyrwyddo rhannu arferion gorau ar ddylunio ar gyfer ailddefnyddio, adbweru ac ailgylchu, ac yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu llwybrau datgomisiynu credadwy sy'n cynnal hyder y cyhoedd. Bydd hefyd yn sefydlu map trywydd arloesi yng Nghymru sy'n cysylltu allbynnau ymchwil ag anghenion defnydd ynni ac yn creu grŵp cydlynu cyllid i alinio ffrydiau arloesi Cymru a'r DU.



## 8.6. Seilwaith a chadwyni cyflenwi

### 8.6.1. Beth sy'n cael ei wneud eisoes

Mae Busnes Cymru yn chwarae rôl ganolog o ran cryfhau cadwyni cyflenwi a hwyluso cydweithio rhwng busnesau Cymru a phrynwyr yn y sector cyhoeddus. Mae'n darparu cyngor caffael wedi'i deilwra, yn enwedig i gwmnïau'r economi sylfaenol, busnesau lleol a chlystyrau, gan eu helpu i gystadlu am gontractau sector cyhoeddus a phreifat.

Mae cymorth o ran y gadwyn gyflenwi a thendro yn cael ei ddarparu gan dîm cenedlaethol bach sy'n cynnwys Rheolwr Ymgysylltu â'r Gadwyn Gyflenwi, sy'n arwain ymgysylltu â phrynwyr cenedlaethol, cysylltiadau contractwyr Haen 1 a datblygu piblinellau strategol, a dau Reolwr Cadwyn Gyflenwi, sy'n darparu cymorth cynghori uniongyrchol i BBaChau ac yn cydlynu gweithgaredd cwrdd â'r prynwr. Mae'r tîm craidd hwn yn cael ei gefnogi gan rwydwaith ehangach o gynghorwyr Busnes Cymru a phartneriaid allanol arbenigol sydd ag arbenigedd mewn ysgrifennu tendrau, deddfwriaeth gaffael a chynigion ar y cyd.

Mae Busnes Cymru hefyd wedi mapio cadwyni cyflenwi ynni adnewyddadwy ac wedi asesu galluoedd porthladdoedd sy'n berthnasol i ddefnydd, gweithredu a chynnal a chadw. Mae timau datblygu economaidd rhanbarthol a Busnes Cymru yn cefnogi cwmnïau i baratoi ar gyfer cyfleoedd yn y dyfodol drwy eu helpu i ddeall disgwyliadau caffael, gofynion gallu a safonau perthnasol. Mae trafodaethau cynnar hefyd ar y gweill ar sut y gellid symleiddio llwybrau caffael.

Mae cymorth i fusnesau yn cynnwys canllawiau ar gyn-gymhwyso, cyflwyno tendrau, gofynion achredu a chynigion cydweithredol. Mae Busnes Cymru yn gweithio'n agos gyda phrynwyr i gyflwyno sesiynau briffio cyflenwyr, gweithdai cynigion ar y cyd a sesiynau ymgysylltu cyn y farchnad. Darperir cymorth pellach drwy gynghorwyr tendro, gweithdai sut i dendro, digwyddiadau cwrdd â'r prynwr a sesiynau ymgysylltu, i gyd wedi'u cynllunio i ehangu cadwyni cyflenwi a chreu cyfleoedd newydd i gyflenwyr o Gymru.

### 8.6.2. Pam mae hyn yn bwysig a beth mae Bargen y Sector yn ei ychwanegu

Mae cadwyn gyflenwi wydn yn sicrhau bod gwerth economaidd yn cael ei gadw yng Nghymru a bod modd cyflwyno prosiectau yn effeithlon. Bydd Bargen y Sector yn adeiladu ar offer presennol megis GwerthwchiCymru i ddarparu llwybr cliriach i gyflenwyr gael mynediad at gyfleoedd. Bydd yn annog ymgysylltu mwy cydgysylltiedig â'r farchnad fel nad yw'n ofynnol i gyflenwyr fynychu sesiynau dyblyg, a bydd yn cysylltu cynllunio sgiliau yn uniongyrchol ag anghenion y gadwyn gyflenwi fel bod hyfforddiant yn arwain at swyddi go iawn.

## 8.7. Perchnogaeth gymunedol a buddion cymunedol

### 8.7.1. Beth sy'n cael ei wneud eisoes

Mae gan Gymru hanes cryf o gefnogi cyfranogiad cymunedol mewn ynni adnewyddadwy drwy Ynni Cymunedol Cymru, Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru ac, yn fwy diweddar, Ynni Cymru, gyda bron i 1 GW o gapasiti mewn perchnogaeth leol. Mae llawer o gymunedau eisoes wedi elwa ar gronfeydd budd cymunedol a chymorth datblygu lleol, a ddarperir gan ddatblygwyr, ynghyd â chyfleoedd ar gyfer rhanberchnogaeth yn cael eu cynnig. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cyhoeddi canllawiau perchnogaeth leol sy'n annog datblygwyr i gyflwyno cynigion ystyrlon a sicrhau bod cymunedau'n rhannu gwerth prosiectau. Mae Cynlluniau Ynni Ardal Leol bellach wedi'u datblygu ar draws pob awdurdod lleol yng Nghymru, gan ddarparu llwybrau lleol manwl i sero net a gwybodaeth glir i bob ardal am anghenion system ynni sy'n gallu arwain at brosiectau blaenoriaeth.

Mae Cynllun Pŵer Lleol Llywodraeth y DU, a gyhoeddwyd ar 9 Chwefror 2026, yn nodi rhaglen genedlaethol i ehangu ynni glân dan berchnogaeth leol a chymunedol drwy hyd at £1 biliwn o grantiau, benthyciadau, cyngor a chymorth arbenigol ymarferol, a ddarperir mewn partneriaeth â GBE. Ei bwrpas yw helpu cymunedau ac awdurdodau lleol i ddatblygu prosiectau ar raddfa fawr a sicrhau bod buddion economaidd a chymdeithasol ynni glân yn cael eu cadw'n lleol. Mae'n cydnabod bod trefniadau'r farchnad bresennol yn aml yn ffafrio prosiectau mwy ac yn ymrwymo i gefnogi 1,000 a mwy o gynlluniau lleol a chymunedol erbyn 2030.

### 8.7.2. Pam mae hyn yn bwysig a beth mae Bargen y Sector yn ei ychwanegu

Bydd cyfranogiad cymunedol yn ganolog i lwyddiant hirdymor y defnydd o ynni adnewyddadwy yng Nghymru. Mae'r Atodiad Tystiolaeth i'r Cynllun Pŵer Lleol yn nodi'r rhwystrau allweddol a methiannau'r farchnad sy'n cyfyngu ar ynni cymunedol a lleol, gan gynnwys mynediad at gyllid, heriau wrth sicrhau cysylltiadau â'r grid, mynediad cyfyngedig i'r farchnad, absenoldeb modelau busnes a allai ehangu'n gyflym, a bylchau parhaus o ran capasiti a gallu. Mae rhanddeiliaid ar gyfer y thema hon wedi tynnu sylw at faterion cysylltiedig ledled Cymru.

Gan gefnogi polisi Perchnogaeth Leol ar Gynhyrchu Ynni Llywodraeth Cymru yn 2020, mae'r Cynllun Pŵer Lleol yn tynnu sylw at feysydd pwnc megis trefniadau budd cymunedol tecach a gwella mynediad teg at ynni i gymunedau, gan atgyfnerthu llawer o'r ymrwymiadau arfaethedig o dan Thema 7. Er nad yw'r Cynllun yn gorfodi newidiadau i berchnogaeth grid neu gapasiti grid wrth gefn ar gyfer prosiectau cymunedol, mae'n cydnabod yn benodol yr heriau y mae cymunedau'n eu hwynebu wrth geisio cael mynediad i'r grid. Ar yr un pryd, mae NESO ac Ofgem yn bwrw ymlaen â diwygiadau i gysylltiadau sy'n symud tuag at ddull "y cyntaf i fod yn barod, y cyntaf i fod angen", gan greu amgylchedd polisi cenedlaethol lle gall Llywodraeth Cymru eiriol o blaid adlewyrchu ystyriaethau cymunedol mewn penderfyniadau rheoli ciw yn y dyfodol.

Gyda'i gilydd, mae'r datblygiadau hyn yn golygu y bydd ymrwymiadau Thema 7 yn cefnogi polisïau Llywodraeth Cymru fel y'u hadlewyrchir yn y Cynllun Pŵer Lleol, sef casglu tystiolaeth ar sut y mae trefniadau'r farchnad presennol yn rhoi cymunedau ledled y DU dan anfantais, gan lywio'r achos dros ddiwygiadau yn y dyfodol, gan gynnwys mecanweithiau cymorth prisiau posibl ar gyfer prosiectau cymunedol os oes angen.

Cwestiwn allweddol ar gyfer Bargen y Sector yw sut y mae Cymru'n lleoli ei hun mewn ymateb i ymgynghoriad y DU ar fuddion cymunedol a rhanberchnogaeth ar gyfer seilwaith ynni carbon isel. Bydd canlyniad yr ymgynghoriad hwnnw yn sefydlu llinell sylfaen newydd ledled y DU, a bydd angen i Gymru ystyried sut y mae hyn yn cyd-fynd â blaenoriaethau gwerth cymdeithasol ehangach Cymru a budd lleol hirdymor. O dan y Cynllun Pŵer Lleol, mae Llywodraeth y DU eisoes wedi datgan y bydd yn datblygu cynigion manwl ar gyfer sut y gallai cynnig rhanberchnogaeth gorfodol weithredu a bydd yn ymgynghori ar y cynigion hyn yn 2026. Bydd hyn yn defnyddio'r pwerau presennol yn Neddf Seilwaith 2015. Fel rhan o ddatblygiad y Fargen y Sector hon, mae rhanddeiliaid wedi cynnig ystod o safbwyntiau ar fuddion cymunedol ar gyfer seilwaith ynni carbon isel a chynlluniau rhanberchnogaeth, gan gynnwys:

Lefelau budd cymunedol gorfodol a'r dull o'u pennu (e.e. fesul cyfraniad MW neu ddull sy'n seiliedig ar faint o ynni a gynhyrchir).

- Strwythurau llywodraethu annibynnol ar gyfer cronfeydd budd cymunedol.
- Mecanweithiau (megis cronfeydd cyfoeth cenedlaethol/rhanbarthol) i ailfuddsoddi cyfran o refeniw prosiect er budd lleol hirdymor.
- Clustnodi cyfran o werth y prosiect i gefnogi meithrin capasiti cymunedol a darparu mynediad at gyngor technegol, cyfreithiol ac ariannol annibynnol.
- Targedau rhanberchnogaeth ehangach, gan gynnwys gosod targedau ar wahân ar gyfer perchnogaeth gymunedol a lleol.

Mae'r cyfraniadau hyn yn dangos yr amrywiaeth o faterion y mae rhanddeiliaid yn dymuno eu gweld yn cael eu harchwilio ymhellach. Felly, mae Bargen y Sector yn amlinellu cyfleoedd i Lywodraeth Cymru gydweithio â'r sector ynni adnewyddadwy i ddatblygu dealltwriaeth bellach o'r ystod o fodelau ar gyfer perchnogaeth leol, ochr yn ochr ag opsiynau ar gyfer rhannu buddion ac integreiddio egwyddorion gwerth cymdeithasol. Bydd y dull cydweithredol hwn yn helpu i nodi trefniadau ymarferol y gellir eu cyflawni sy'n cadw buddion yng Nghymru ac yn darparu mwy o eglurder i ddatblygwyr, cymunedau a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau.

Gan adeiladu ar hyn, mae Bargen y Sector yn hwyluso'r cyfle i ddiweddaru Canllawiau Perchnogaeth Leol, datblygu fframwaith cyson ar gyfer rhannu buddion ac ymwreiddio egwyddorion gwerth cymdeithasol mewn partneriaeth â Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae hefyd yn tynnu sylw at yr angen i wella tryloywder drwy gofrestr o fuddion cymunedol ac offer cyfathrebu cydgysylltiedig, ac i sicrhau bod ystyriaethau fforddiadwyedd ynni yn cael eu hymgorffori wrth ddylunio pecynnau buddion.

Bwriad yr ymrwymiadau a ddatblygwyd ar gyfer y thema hon yw lleoli Cymru fel defnyddiwr technolegau adnewyddadwy sy'n canolbwyntio ar gymunedau, gan gydnabod bod rhaid i unrhyw ddull yn y dyfodol daro'r cydbwysedd cywir fel nad yw prosiectau Cymru dan anfantais mewn mecanweithiau cystadleuol ledled y DU megis rowndiau Contractau ar gyfer Gwahaniaeth yn y dyfodol. Bydd sicrhau bod disgwyliadau'n parhau i fod yn deg, yn gymesur ac yn cyd-fynd ag arferion ledled y DU yn hanfodol i gynnal cymorth cymunedol a chystadleurwydd prosiectau.

Gan fod swyddi a sgiliau hefyd yn fath pwysig o fudd cymunedol, mae cysylltiadau trawsbynciol clir â'r thema Sgiliau a'r Gweithlu. Felly, dylai rhanddeiliaid sydd ag arbenigedd mewn perchnogaeth gymunedol a buddion cymunedol gael eu cynrychioli yn y Grwpiau Gorchwyl a Gorffen perthnasol i gefnogi cyflawni cydgysylltiedig.



# 9. Trefniadau llywodraethu a gweithredu

Mae cyfres o opsiynau llywodraethu a chyllido wedi'u datblygu i gefnogi'r gwaith o gyflawni Fargen y Sector. Cyflwynir yr opsiynau hyn i ganiatáu hyblygrwydd i Lywodraeth nesaf Cymru, gan gydnabod y gall penderfyniadau ynghylch adnoddau, cyfrifoldebau cyflawni a maint y cyllid cyhoeddus amrywio yn dibynnu ar flaenoriaethau gweinidogion o dan weinyddiaeth newydd. Y bwriad yw cynnal momentwm gan ddarparu opsiynau ar y ffordd orau o weithredu adnoddau wedi hynny. Er mwyn diogelu uniondeb y system cynllunio a chydsynio, bydd angen i drefniadau llywodraethu wahanu gwaith gweithredu Bargen y Sector oddi wrth swyddogaethau cynllunio statudol a'r broses o wneud penderfyniadau.

Mae'r holl opsiynau yn cadw fframwaith llywodraethu cyson dan arweiniad Grŵp Arweinwyr Sector a gadeirir gan Lywodraeth Cymru, gyda chymorth Grwpiau Gorchwyl a Gorffen a sefydlwyd yn ôl yr angen i ddatblygu ymrwymiadau. Mae pob opsiwn yn tybio Rheolwr Rhaglen pwrpasol, wedi'i benodi o gorff annibynnol, i gydlynu'r gwaith cyflawni, cynnal cyflymder a sicrhau bod ymrwymiadau'n cael eu gweithredu'n effeithiol. Y prif wahaniaeth rhwng yr opsiynau yw sut y mae'r gwaith gweithredu, gan gynnwys Rheolwr y Rhaglen, yn cael ei gyllido. Mae'n debygol y bydd angen sefydlu isafswm trothwy cyllido i sicrhau rôl Rheolwr y Rhaglen a chomisiynu'r dystiolaeth flaenoriaeth sydd ei hangen i gefnogi'r gwaith cyflawni.

Er bod y sector yn cefnogi egwyddor Rheolwr y Rhaglen ac yn cyfrannu at waith parhaus i fwrw ymlaen â'r ymrwymiadau yn y ddogfen hon, mae hyn yn amodol ar gael rhagor o fanylion am oblygiadau cost posibl cyn gwneud unrhyw ymrwymiadau cyllido, gan gydnabod na fydd y rhain yn hysbys hyd nes y bydd blaenoriaethau Llywodraeth nesaf Cymru yn cael eu cadarnhau.

Ar ben hynny, mae rhanddeiliaid ynni cymunedol wedi gwneud cyfraniad sylweddol at ddatblygu Bargen y Sector ac wedi dangos parodrwydd cryf i barhau i gefnogi'r gwaith o'i chyflawni, naill ai fel Arweinydd Sector ar gyfer Thema 7 neu drwy gymryd rhan mewn Grwpiau Gorchwyl a Gorffen. Fodd bynnag, cydnabu nad oes gan rai sefydliadau yr adnoddau ariannol i gynnal y lefel hon o ymgysylltu dros gyfnod pedair blynedd disgwyliedig Bargen y Sector. Felly, bydd angen i Lywodraeth Cymru ystyried trefniadau cyllido i alluogi'r sefydliadau hyn i barhau i gymryd rhan yn y gwaith gweithredu.

Gallai Llywodraeth Cymru yn dwyn y Grŵp Arweinwyr Sector a'r Grwpiau Gorchwyl a Gorffen i gyfrif, gyda chymorth gweithredol gan Reolwr y Rhaglen a goruchwyliaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet. Bydd gweithredu Bargen y Sector yn dechrau ar ôl iddi gael ei chyhoeddi o dan Lywodraeth bresennol Cymru, gyda chamau tymor byr yn dechrau ar unwaith gan fod angen ymrwymiad amser yn hytrach na chyllid cychwynnol, gyda Phartneriaethau Lleol o bosibl yn cyflawni rôl Rheolwr y Rhaglen i ddechrau.

Gallai'r opsiwn gweithredu ar gyfer y tymor hir a ffefrir ei ddewis ar ôl etholiad y Senedd 2026, unwaith y bydd y weinyddiaeth newydd wedi'i ffurfio, a disgwylir penderfyniad yn dilyn enwebiad y Prif Weinidog gan y Senedd newydd ei chynnull erbyn 3 Mehefin 2026 fan bellaf.

### Rheolwr y rhaglen (yn berthnasol ar draws pob opsiwn)

O fewn y persbectif a amlinellwyd eisoes bydd nifer o'r penderfyniadau ar gyfer gweinyddiaeth newydd, byddai rôl Rheolwr y Rhaglen yn ganolog i sicrhau cyflawni cyflym am gyfnod pedair blynedd disgwyliedig Bargen y Sector, gan alinio'r gwaith gweithredu â thymor Llywodraeth nesaf Cymru.

**Byddai cyfrifoldebau allweddol yn cynnwys:**

- Cynnal y traciwr ymrwymiadau a'r map trywydd ar gyfer cyflawni cyffredinol
- Cydlynu cyfarfodydd a llifoedd gwaith ar draws y Grŵp Arweinwyr Sector a'r Grwpiau Gorchwyl a Gorffen
- Paratoi dogfennau, briffiau, agendâu ac adroddiadau cynnydd
- Cynnal adroddiadau tryloyw ar gyllid a gydgasglwyd

- Rheoli caffael a goruchwylio contractau ar gyfer ffrydiau gwaith arbenigol
- Sicrhau cysondeb ar draws themâu a chefnogi'r gwaith o ddatrys materion trawsbynciol (e.e. grid, sgiliau, buddion cymunedol)
- Darparu cydlynu o ddydd i ddydd i gynnal momentwm cyflawni a chefnogi ymgysylltu â rhanddeiliaid.

Hyd nes y bydd matrics blaenoriaethu ymrwymiadau technoleg-benodol wedi'i gynhyrchu, mae'n anodd cyfrifo amcangyfrifon cyllideb ar gyfer unrhyw astudiaethau neu becynnau gwaith ychwanegol a allai fod eu hangen, a byddai'r rhain hefyd yn dibynnu ar flaenoriaethau'r llywodraeth nesaf. Yn yr un modd, nid oes modd cadarnhau eto i ba raddau y bydd angen cymorth Rheolwr y Rhaglen. Disgwylir y bydd cost cymorth Rheolwr y Rhaglen tua £40,000 i £50,000 y flwyddyn.

### Cyfarfodydd ac amlder adrodd

Gall Grwpiau Gorchwyl a Gorffen gyfarfod o leiaf bob chwarter, gyda chyfarfodydd amlach yn ystod y gwaith cychwynnol. Gall adroddiadau cynnydd blynyddol eu cyhoeddi er mwyn sicrhau tryloywder, ac gall ystyriaeth o bresenoldeb Gweinidogion Cymru i ddarparu arweinyddiaeth Llywodraeth Cymru hefyd for yn ystyriaeth.

### Mecanwaith rheoli newid

Bydd mecanwaith rheoli newid ffurfiol yn cael ei ddatblygu yn ystod y gwaith gweithredu, a fydd yn caniatáu i Fargen y Sector addasu i amodau polisi, marchnad a system sy'n esblygu. Pan fo ymrwymiad blaenoriaeth yn dod ar draws oedi neu rwystr na ellir ei ddatrys o fewn Grŵp Gorchwyl a Gorffen, bydd y mater yn cael ei uwchgyfeirio at yr Arweinwyr Sector a, lle bo angen, at sylw uwch swyddogion neu Weinidogion Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud yn amserol ac i atal diffyg twf ar faterion critigol.

### Opsiwn 1 – Cyllid ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a datblygwyr

Mae Llywodraeth Cymru a datblygwyr sydd â'r gyfran fwyaf o biblinell prosiectau adnewyddadwy Cymru yn cyfrannu ar y cyd at gronfa weithredu wedi'i chydgasglu. Bydd y gronfa hon yn cael ei defnyddio i wneud y canlynol:

- Cyflogi Rheolwr y Rhaglen am gyfnod llawn Bargen y Sector
- Comisiynu astudiaethau technegol â blaenoriaeth a thystiolaeth a nodwyd o fewn yr ymrwymiadau

Fel y nodir yn Adran 4, bydd Arweinwyr Sector yn cael y dasg o ddatblygu matrics blaenoriaethu ymarferol, technoleg-benodol i lywio ffrydiau gwaith Gorchwyl a Gorffen a dilyniannu camau gweithredu lle maen nhw'n darparu'r gwerth mwyaf. Bydd yr holl wariant o gyllid a gydgasglwyd yn cael ei adrodd yn dryloyw ar ffurf diweddariadau blynyddol, gan fanylu ar ffynonellau, dyraniadau a chanlyniadau. Bydd angen cymeradwyaeth ar y cyd gan ddatblygwyr cyfranogol a Llywodraeth Cymru ar gyfer unrhyw broses o addasu cyllid a gydgasglwyd at ddibenion gwahanol.

Mae llywodraethu, strwythurau cyfarfodydd a threfniadau adrodd yn dilyn y model a nodir uchod. Mae Rheolwr y Rhaglen yn cyflawni'r cyfrifoldebau llawn a restrir yn adran Rheolwr y Rhaglen.

### Opsiwn 2 – Gweithredu a ariennir gan ddatblygwyr

Mae'r holl lywodraethu, strwythurau cyfarfodydd, trefniadau adrodd a swyddogaethau Rheolwr y Rhaglen yn adlewyrchu'r rhai a ddisgrifir uchod. Y gwahaniaeth yw'r cyllid:

- Datblygwyr yn unig sy'n cyfrannu at y cyllid a gydgesglir sy'n cwmpasu Rheolwr y Rhaglen a'r astudiaethau y cytunwyd arnynt.
- Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i arwain o ran llywodraethu ond nid yw'n cyfrannu'n ariannol.

Mae Rheolwr y Rhaglen yn cyflawni'r un cyfrifoldebau a amlinellir uchod, wedi'u hariannu gan gyfraniadau datblygwyr yn unig.

### Opsiwn 3 – Model cyllido cymysg sy'n cynnwys rhanddeiliaid ehangach

Mae'r opsiwn hwn yn cadw'r un fframwaith llywodraethu a chyfrifoldebau Rheolwr y Rhaglen fel y'u disgrifir uchod.

Y gwahaniaeth yw dull cyllido amrywiol:

- Gall cyfraniadau ddod gan ddatblygwyr, Llywodraeth Cymru (os bydd Gweinidogion yn dewis gwneud hynny) a rhanddeiliaid ehangach megis cyrff anllywodraethol amgylcheddol, sefydliadau cymunedol neu gyrff cyhoeddus, a fydd wedyn yn dod yn rhan o'r Grwpiau Gorchwyl a Gorffen
- Gall cyllid fod yn brosiect-penodol, gan ganiatáu comisiynu wedi'i dargedu lle mae safbwyntiau ehangach yn werthfawr.
- Dim ond cyfranwyr at becyn gwaith penodol a fyddai'n dylanwadu ar benderfyniadau blaenoriaethu ar gyfer y pecyn gwaith hwnnw.

# 10. Casgliad

Mae Gweinidogion Cymru yn ddiolchgar i Arweinwyr y Sector ac aelodau'r Grwp Gorchwyl a Gorffen sydd wedi cyfrannu at Fargen y Sector, ac wedi dod i gytundeb arni. Mae eu harbenigedd a'u cydweithio wedi bod yn amhrisiadwy. Teimlir y bydd y gwaith hwn yn darparu sylfaen gref a thystiolaeth dda i Lywodraeth nesaf Cymru.



# Atodiad 1 – Ymrwymiadau

| Thema | Perchennog | Ymrwymiad | Amserlen |
|---|---|---|---|
| Thema 1: Amgylchedd Galluogi – Polisi, Rheoleiddio a Chydsynio | Llywodraeth Cymru | Llywodraeth nesaf Cymru a fydd yn penderfynu a ddylid diwygio Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040, a byddai'n cynnwys galwad am dystiolaeth. | Tymor byr |
| | | Darparu canllawiau i sicrhau fframweithiau polisi sefydlog, cyson ar draws adrannau, wedi'u datblygu ar y cyd â rhanddeiliaid. Y bwriad yw cyhoeddi canllawiau ar fawn cyn diwedd y Senedd hon. | Tymor byr a pharhaus |
| | | Archwilio mecanweithiau i wella gallu cynghori CNC, gan gynnwys ystyried panel cynghori allanol wedi'i gymeradwyo ymlaen llaw a ariennir gan ymgeiswyr, ac adnodd canolog i sicrhau cyngor cwmpasu a chydsynio amserol lle mae adnoddau mewnol CNC yn gyfyngedig. | Tymor byr a pharhause |
| | | Monitro effeithiolrwydd y cyllid ychwanegol y mae Llywodraeth Cymru wedi'i ddarparu i gyrff statudol (CNC, PEDW, ACLlau), ac adolygu a allai fod angen cymorth pellach i sicrhau bod y gwaith cyflawni yn effeithiol. | Tymor byr a pharhaus |
| | | Ar ôl cyhoeddi a chymeradwyo'r SSEP, archwilio'r berthynas rhwng yr SSEP a Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol, gan gynnwys eglurhad o statws ac aliniad a'r angen i ystyried unrhyw dargedau technoleg-benodol. Gall hyn gynnwys asesu a oes angen diweddaru Cymru'r Dyfodol i adlewyrchu'r SSEP. | Tymor canolig |
| | | Monitro effeithiolrwydd y trawsnewid digidol ar gyfer gwasanaethau cynllunio, gan gynnwys y newidiadau diweddar i'r platfformau cydsynio, gan gynnwys adborth gan ddefnyddwyr. | Tymor canolig a pharhaus |
| | | Parhau i weithio gydag Ystad y Goron a CNC i gryfhau'r sylfaen dystiolaeth ac egluro bylchau mewn gwybodaeth ac ystyried cyfleoedd yn y dyfodol fel rhan o'r gwaith o adolygu cynllunio cenedlaethol a pholisïau morol yn y dyfodol. | Tymor canolig/ bydd ymchwil yn cymryd mwy o amser |
| | | Parhau i gefnogi polisïau ynni adnewyddadwy llywodraeth y DU sy'n ymwneud â diogelu radar, cydsynio, adeiladu, rheoleiddio amgylcheddol a'r rhwydwaith, tuag at ddarparu pŵer glân erbyn 2030, lle mae'r pwerau'n perthyn i lywodraeth y DU. | Tymor canolig/ hirdymor |

| Thema | Perchennog | Ymrwymiad | Amserlen |
|---|---|---|---|
| | Sector | Rhannu gwybodaeth am biblinellau gyda Llywodraeth Cymru, gan ddarparu'r amserlenni gorau sydd ar gael i lywio'r gwaith o ddarparu adnoddau i gyrff cynllunio a chydsynio yn y dyfodol. | Tymor byr a pharhaus |
| | | Y sector i ymateb i ymgynghoriadau yn y dyfodol, gan gynnwys galwadau am dystiolaeth, ar themâu megis y rhai a gydnabyddir ym Margen y Sector a'r PAAs, ac i ystyried yr ymgynghoriad presennol ar y Canllaw Cynllunio Strategol ar gyfer Gwastadeddau Gwent. | Tymor byr/ canolig |
| | | Parhau i ymgysylltu yn y cam cwmpasu gyda chyrff a chymunedau cydsyniol perthnasol, i gynnal a sicrhau bod ceisiadau o ansawdd da yn cael eu cyflwyno. | Tymor byr/ canolig |
| | Yn gyffredin | Gweithio gydag awdurdodau perthnasol i ddatblygu protocolau ymgysylltu'n gynnar ar ddiogelu radar a nodi atebion ymarferol a thryloyw ar y cyd ar gyfer cyfyngiadau radar NATS i ddatgloi defnydd o ynni gwynt ar y tir. Gweithio gyda NATS, y CAA a Maes Awyr Caerdydd i ddatblygu datrysiadau diogelu radar tryloyw ac egluro'r ysgogiadau polisi hedfan sydd ar gael i Lywodraeth Cymru. | Tymor canolig |
| | | Gweithio ar y cyd i gyd-ddatblygu polisi a chanllawiau cyson, clir a diamwys, gan gynnwys ymgysylltu'n gynnar cyn ffurfioli, i sicrhau ei fod yn ymarferol, yn gyson ac yn seiliedig ar brofiad y sector. | Tymor canolig |
| | | Datblygu ffyrdd cydweithredol o weithio i sefydlu mecanwaith ar gyfer rhannu tystiolaeth ar draws prosiectau a thechnolegau, gan adeiladu sylfaen dystiolaeth amgylcheddol gyffredin a mynd i'r afael â bylchau data critigol. | Tymor canolig |

| Thema | Perchennog | Ymrwymiad | Amserlen |
|---|---|---|---|
| Thema 2 – Creu marchnadoedd – Buddsoddi a Chymorth Cyllid | Llywodraeth Cymru | Bydd Llywodraeth Cymru yn annog y sector i ddefnyddio pecynnau cyllido presennol sy'n gysylltiedig â thechnoleg o ffynonellau ar lefel Cymru a'r DU, gyda gwybodaeth yn cael ei lledaenu drwy ganllawiau sy'n nodi'r cyllid cyhoeddus a phreifat sydd ar gael. | Tymor byr a pharhaus |
| | | Eirioli dros gyfranogiad GBE yn natblygiad prosiectau cyfnod cynnar a sicrhau llwybrau clir i brosiectau Cymru ymgysylltu â ffrydiau cyflawni datblygol GBE. Sefydlu Cytundeb Partneriaeth Strategol gyda'r NWF i gyflawni blaenoriaethau i Gymru. | Tymor byr/ canolig |
| | | Bydd Llywodraeth Cymru yn eirioli i DESNZ i sicrhau bod paramedrau ar gyfer Rowndiau Dyrannu Contractau ar gyfer Gwahaniaeth yn y dyfodol yn cael eu gosod yn briodol i gynyddu'r tebygolrwydd o lwyddiant i brosiectau yng Nghymru, gan gynnwys sicrhau dyraniad cyllideb digonol, er mwyn sicrhau marchnad hyfyw ar gyfer cadwyn gyflenwi Cymru. Bydd hyn yn cynnwys darparu mewnbwn i'r cynllun CIB. | Tymor byr/ canolig<br>Mae angen i ddeialog fod yn barhaus |
| | Sector | Darparu gwelededd clir yn y biblinell er mwyn denu buddsoddiad preifat a galluogi BBaChau yng Nghymru i baratoi ar gyfer cyfleoedd o safbwynt gallu a pharodrwydd. | Tymor byr a pharhaus |
| | | Rhannu gwelededd ar drafodaethau a chanlyniadau sy'n ymwneud â chyfleoedd cyllido gyda sefydliadau megis y NWF, GBE, Ystad y Goron a'r Bartneriaeth Twf Ynni Gwynt ar y Môr – Cronfa Twf Diwydiannol (e.e. archwilio'r potensial i lywio pecynnau cyllido ar y cyd). | Tymor byr/ canolig |
| | | Cydlynu eiriolaeth ar gyfer newidiadau ar lefel y DU (Contractau ar gyfer Gwahaniaeth, buddsoddiad grid) o dan lais sector unedig Cymru, er mwyn cryfhau cynrychiolaeth Cymru i'r graddau y bo modd ym mhenderfyniadau polisi a chyllid y DU. | Contractau ar gyfer Gwahaniaeth – Tymor byr/ canolig |
| | Yn gyffredin | Gweithio gyda phartneriaid cyllido megis Banc Datblygu Cymru i gyfuno pecynnau cyllid cyhoeddus a phreifat sy'n cefnogi anghenion technolegol y sector. | Tymor byr a pharhaus |
| | | Cyfrannu at ymgynghoriad DESNZ ar sut y gallai cynnig rhanberchnogaeth orfodol weithio. | Tymor canolig |
| | | Archwilio cyfleoedd i gyrff sector cyhoeddus gefnogi ynni cymunedol drwy ddulliau caffael a phartneriaeth, pan fo hynny'n gydnaws â deddfwriaeth gaffael. | Tymor canolig |
| | | Fel rhan o gynllunio ynni lleol ehangach, archwilio cyfleoedd ar gyfer cyfranogiad cymunedol mewn modelau marchnadoedd ynni lleol datblygol, gan gynnwys trefniadau marchnad rithwir, ac ystyried y goblygiadau ar gyfer datblygu polisi yn y dyfodol. | Tymor canolig |

| Thema | Perchennog | Ymrwymiad | Amserlen |
|---|---|---|---|
| Thema 3 – Sgiliau a'r Gweithlu | Llywodraeth Cymru | Gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod cyfleoedd, megis mynediad at wybodaeth am yrfaoedd a hyfforddiant, ar gael i bobl ar bob cam o'u gyrfa – o'r rhai sy'n ymgymryd â hyfforddiant cychwynnol i'r rhai sy'n trosglwyddo rhwng diwydiannau, a'r rhai sy'n ceisio uwchsgilio o fewn eu gyrfaoedd presennol, gan gydnabod pwysigrwydd ailsgilio a llwybrau pontio gyrfa. | Tymor byr/ canolig |
| | | Gan adeiladu ar amcanion polisi presennol, gweithio gyda'r diwydiant a phartneriaid eraill i ddatblygu mapiau trywydd ar gyfer prentisiaethau a chymwysterau eraill, sy'n gysylltiedig ag amserlenni defnydd disgwyliedig. | Tymor byr/ canolig |
| | | Asesu cyffredinolrwydd y dulliau a argymhellir gan yr is-grŵp sgiliau (y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gwynt ar y Môr), gan gynnwys cymhwysedd ar draws technolegau. | Tymor byr/ canolig |
| | | Gweithio gyda Phartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol a Gyrfa Cymru i wella cydlynu ac i egluro rolau partneriaid eraill, gan gynnwys mynegi cyfrifoldebau cyflawni ar draws y system sgiliau, gan gynnwys archwilio'r ffordd orau o gyflawni mentrau fel canolfannau rhagoriaeth ar gyfer ynni adnewyddadwy yng Nghymru. | Tymor canolig |
| | Sector | Rhannu piblinell prosiectau hirdymor i lywio datblygu a chynllunio sgiliau. | Tymor byr a pharhaus |
| | | Ymrwymo i archwilio ffyrdd i gynyddu cyfraddau recriwtio lleol, datblygu cyrsiau a phartneriaethau hyfforddi gyda cholegau AB a phrifysgolion, lle gellir cefnogi carfannau hyfyw. | Tymor byr/ canolig |
| | | Datblygu egwyddorion/canllawiau recriwtio i helpu ymgeiswyr a phartneriaid hyfforddi i baratoi, gan gynnwys gwybodaeth gliriach am ofynion mynediad. | Tymor byr/ canolig |
| | Yn gyffredin | Ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf drwy oriau gwirfoddol ar gyfer ymgysylltu ag ysgolion cynradd, gyda chymorth cofrestrau llysgenhadon presennol (er enghraifft, STEM) ac ymrwymiadau amser gwirfoddol blynyddol y cytunwyd arnynt. | Tymor byr a pharhaus |

| Thema | Perchennog | Ymrwymiad | Amserlen |
|---|---|---|---|
| | | Cydlynu dulliau rhwng y sefydliadau addysgol (gan weithio ar y cyd â MEDR – Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil), colegau a Phrifysgolion, Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol, Llywodraeth Cymru a'r diwydiant i sicrhau dull sy'n cael ei gydgysylltu'n genedlaethol tuag at sgiliau ledled Cymru i gefnogi'r gwaith o weithredu'r Cynllun Gweithredu Sgiliau Sero Net. | Tymor canolig |
| | | Datblygu cynllun gweithlu 10–15 mlynedd sy'n gysylltiedig â thargedau defnyddio technoleg. | Tymor canolig |
| | | Darparu dull mwy cydgysylltiedig o ymgysylltu'n gynnar â STEM. | Tymor canolig |
| | | Y sector i weithio gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill i ddatblygu dealltwriaeth bellach o'r adnoddau sydd eu hangen ar gyfer prentisiaethau a chymwysterau eraill, gan gynnwys cyrsiau modiwlaidd, sesiynau bŵt-camp a chyrsiau byr eraill (gan gefnogi gwaith MEDR). | Tymor canolig |
| | | Lansio platfform byw cyfleoedd ar gyfer sgiliau (e.e. yn cwmpasu hyfforddiant, cyllid, swyddi a chyfleoedd profiad gwaith), gan integreiddio'r platfformau ar wahân sy'n bodoli eisoes. | Tymor canolig a pharhaus |

| Thema | Perchennog | Ymrwymiad | Amserlen |
|---|---|---|---|
| Thema 4 – Grid yng Nghymru Llywodraeth Cymru | Llywodraeth Cymru | Ystyried ac ymateb i adroddiad y Grŵp Cynghori Annibynnol. | Tymor byr |
| | | Parhau i weithio gyda NESO ac Ofgem i sicrhau bod blaenoriaethau Cymru yn cael eu hadlewyrchu yn y SSEP a'r Cynllun Strategol Ynni Rhanbarthol (RESP), gan gynnwys ceisio sicrhau aliniad ar draws cynlluniau ynni lleol a rhanbarthol Cymru a chynllunio grid. | Tymor canolig |
| | | Gweithio gyda NGET i nodi newidiadau rheoleiddio neu broses a allai symleiddio'r gwaith o ddatblygu a chyflawni prosiectau grid strategol. | Tymor canolig |
| | | Darparu eglurder ar gydsyniad ar gyfer seilwaith grid a chymhwyso polisi drwy gydweithio ac ymgynghori â rhanddeiliaid perthnasol. | Tymor canolig |
| | | Arwain rhaglen eiriolaeth ledled Cymru i sicrhau capasiti grid ychwanegol yng Nghymru yn unol â'r dystiolaeth gan Gridiau Ynni'r Dyfodol i Gymru, cynlluniau ynni a'r gofynion RESP datblygol. | Tymor canolig a pharhaus |
| | Sector | Ymgysylltu â'r diwydiant ehangach i lywio blaenoriaethau buddsoddi yn y grid. | Tymor canolig |
| | Yn gyffredin | Cyfrannu at SSEP ac RESP i ystyried a yw'r amcanestyniadau capasiti yn briodol, ac a fydd y Cynlluniau hyn yn darparu'r dystiolaeth ar gyfer map trywydd uwchraddio grid Cymru gyda thargedau capasiti ac amserlenni clir, sy'n cyfrannu at gynlluniau ar gyfer y cyfnod ar ôl 2030. | Tymor canolig |
| | | Ystyried goblygiadau'r broses Diwygio Cysylltiadau ac i bob sector technoleg godi pryderon gyda Llywodraeth Cymru a'r cyrff perthnasol. | Tymor canolig |
| | | Ystyried goblygiadau effeithiau codi tâl TNUoS ar brosiectau Cymru er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu trin yn deg ym mhenderfyniadau buddsoddi grid y DU. | Tymor canolig |
| | | Ystyried y ffordd orau o gefnogi prosiectau cymunedol mewn perthynas â'r grid, gan gynnwys archwilio mecanweithiau a allai gefnogi cysylltiadau amserol ar gyfer cynlluniau dan arweiniad y gymuned. | Tymor canolig |
| | | Archwilio opsiynau ar gyfer asesu potensial cydbwyso'r grid ar raddfa gymunedol ar lefel is-orsaf gynradd, er mwyn llywio datblygiad polisi yn y dyfodol sy'n seiliedig ar dystiolaeth mewn perthynas â pherchnogaeth gymunedol a lleol. | Tymor canolig |

| Thema | Perchennog | Ymrwymiad | Amserlen |
|---|---|---|---|
| Thema 5 – Arloesi ac Ymchwil (gan gynnwys ar ôl gweithredu) | Llywodraeth Cymru | Adeiladu ar Gynllun Cydweithredu Innovate UK a Llywodraeth Cymru i gryfhau aliniad ag anghenion a chyfleoedd Cymru. | Tymor canolig |
| | | Ystyried cyfleoedd polisi yn y dyfodol pan fydd polisïau cynllunio (tir) cenedlaethol a chynllunio morol yn cael eu hadolygu. | Tymor canolig |
| | Sector | Rhannu arferion gorau ar gydrannau ailgylchadwy a strategaethau datgomisiynu ac adbweru. | Tymor canolig |
| | | Gwella tryloywder ar gaffael deunyddiau byd-eang ac arferion llafur, lle bo hynny'n bosibl ac yn gymesur. | Tymor canolig |
| | Yn gyffredin | Defnyddio strategaeth Cymru'n Arloesi a'i gynllun cyflawni cysylltiedig i nodi meysydd blaenoriaeth ar gyfer cyd-fuddsoddiad mewn ymchwil a datblygu yn y sector, gan adeiladu ar gryfderau ymchwil presennol Cymru a'r DU. | Tymor byr a pharhaus |
| | | Gweithio gyda'r byd academaidd a busnesau Cymru yn y sector i ddatblygu a manteisio i'r eithaf ar botensial masnachol allbynnau ymchwil. | Tymor byr/ canolig |
| | | Defnyddio ein Cytundeb Partneriaeth, ein Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a'n Cytundeb Rhannu Data gydag Innovate UK i wella gwelededd a lleihau dyblygu yn y sector. | Tymor byr/ canolig |

| Thema | Perchennog | Ymrwymiad | Amserlen |
|---|---|---|---|
| Thema 6 – Seilwaith a Chadwyni Cyflenwi | Llywodraeth Cymru | Busnes Cymru i ddatblygu porth cadwyn gyflenwi cenedlaethol ar gyfer y DU gyfan i symleiddio ymgysylltu â BBaChau ac osgoi systemau lluosog sy'n brosiect-benodol (gan gysylltu â GwerthwchiGymru), gan adeiladu ar blatfformau presennol yn hytrach na chreu systemau dyblyg newydd. | Tymor canolig |
| | | Cefnogi'r angen am fuddsoddiad yn y seilwaith porthladdoedd, gan gynnwys buddsoddiad wedi'i dargedu ar gyfer defnyddio ynni'r llanw, yn ogystal ag ynni ar y môr a defnydd yn y dyfodol ar gyfer technolegau eraill, gan gydnabod yr angen am hyblygrwydd wrth i ofynion technoleg esblygu. | Tymor canolig/ hirdymor |
| | Sector | Trefnu digwyddiadau cwrdd â'r prynwr a mapio cadwyn gyflenwi ranbarthol, gan weithio gyda Busnes Cymru, Pwyllgorau Cydweithredol Corfforaethol, swyddfeydd rhanbarthol Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, CBI Cymru a phartneriaid perthnasol eraill. | Tymor byr/ canolig |
| | Yn gyffredin | Datblygu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda datblygwyr prosiectau yn ôl yr angen, gan sicrhau bod pob Memorandwm yn cynnwys meini prawf wedi'u diffinio'n glir ac yn defnyddio templedi safonol i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i Gymru. | Tymor byr/ canolig i ddatblygu templed |
| | | Nodi a chydlynu cyllid ar gyfer cadwyni cyflenwi BBaChau yng Nghymru, gan dynnu ar fodelau a ddefnyddir gan Ystad y Goron a'r Bartneriaeth Twf Gwynt ar y Môr lle bo hynny'n briodol, a theilwra cymorth i amodau'r farchnad yng Nghymru. | Tymor canolig |
| | | Alinio sgiliau a strategaethau cadwyni cyflenwi i sicrhau'r budd economaidd lleol mwyaf, sy'n gysylltiedig â digwyddiadau ar y cyd. | Tymor canolig |
| | | Gweithio ar y cyd i hyrwyddo arferion gwaith teg, gan gynnwys mabwysiadu'r Cyflog Byw, ar draws prosiectau ynni adnewyddadwy a chadwyni cyflenwi yng Nghymru. | Tymor canolig |

| Thema | Perchennog | Ymrwymiad | Amserlen |
|---|---|---|---|
| Thema 7 – Perchnogaeth Gymunedol a Buddion Cymunedol | Llywodraeth Cymru | Ymateb i ganlyniad ymgynghoriad Llywodraeth y DU ar fuddion cymunedol a rhanberchnogaeth ar gyfer seilwaith ynni carbon isel, gyda'r sectorau yn darparu'r sylfaen dystiolaeth i Lywodraeth Cymru ymateb arni. | Tymor byr/ canolig |
| | | Parhau i gefnogi prosiectau lleol drwy wasanaethau presennol megis Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru ac Ynni Cymru. | Tymor byr/ canolig |
| | | Adolygu a diweddaru Canllawiau Perchnogaeth Leol mewn cydweithrediad â'r sector a gosod fframweithiau clir ar gyfer rhannu buddion ar draws technolegau, gan gydnabod gwahaniaethau rhwng technolegau a hyd a lled prosiectau. | Tymor canolig |
| | | Ystyried opsiynau i integreiddio fforddiadwyedd ynni wrth ddylunio budd cymunedol gyda'r nod o helpu cymunedau i leihau biliau a chadw mwy o werth yn lleol. | Tymor canolig |
| | | Fel rhan o ddiwygiadau rheoleiddio a chyllido ehangach, cydlynu eiriolaeth gyda Llywodraeth y DU, NESO a Gweithredwyr Rhwydweithiau Dosbarthu i eirioli dros sicrhau bod ystyriaethau ynni cymunedol yn cael eu hadlewyrchu mewn diwygiadau cysylltu â'r grid yn y dyfodol, gan gynnwys archwilio sut y gellid cydnabod prosiectau cymunedol parod o fewn fframweithiau rheoli ciw y cyntaf i fod yn barod, y cyntaf i fod ei angen. | Tymor canolig a pharhaus |
| | Sector | Ymrwymo i weithio gyda Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid perthnasol eraill, gyda'r nod o gynnig buddion cymunedol a rhanberchnogaeth fel dull safonol. | Tymor byr a pharhaus |
| | | Cefnogi'r gwaith o ddatblygu pecynnau cymorth cyfathrebu ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned. | Tymor canolig |

| Thema | Perchennog | Ymrwymiad | Amserlen |
|---|---|---|---|
| | Yn gyffredin | Adolygu'r diffiniadau o berchnogaeth gymunedol a lleol, asesu'r canlyniadau gwerth cymdeithasol sy'n gysylltiedig â phob un ac archwilio opsiynau ar gyfer gosod targedau ar wahân ar gyfer perchnogaeth gymunedol a lleol. | Tymor byr/ canolig |
| | | Creu cofrestr o fuddion cymunedol presennol ledled Cymru a darparu tystiolaeth fel rhan o alwad DESNZ am weithredu ynghylch a yw'r dulliau presennol yn cyflawni canlyniadau cadarnhaol i gymunedau. | Tymor byr/ canolig |
| | | Sefydlu cofrestr gyhoeddus genedlaethol gyfredol o'r holl ddatblygiadau adnewyddadwy a chyfleoedd ar gyfer rhanberchnogaeth. | Tymor byr/ canolig |
| | | Datblygu fframwaith budd cymunedol safonol ar gyfer Cymru, gan ystyried canlyniadau ymgynghoriad DESNZ. | Tymor canolig |
| | | Cydlynu â Chomisiynydd Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i ymwreiddio egwyddorion gwerth cymdeithasol wrth weithredu Bargen y Sector. | Tymor canolig |
| | | Ystyried y ffordd orau o gefnogi grwpiau cymunedol ar bynciau megis ymgysylltu â chynllunio, ymgysylltu a datblygu rhanberchnogaeth, meithrin gallu ar gyfer trefniadau budd cymunedol a llywio prosesau Gorchymyn Cydsyniad Datblygu a chynllunio sylweddol. | Tymor canolig |
| | | Archwilio opsiynau ar gyfer cefnogi datblygiad pecyn cymorth "Community Energy in a Box" DESNZ a thempledi rhanberchnogaeth cysylltiedig ar gyfer cymunedau. | Tymor canolig |
| | | Archwilio cyfleoedd ar gyfer cyfranogiad cymunedol mewn prosiectau adbweru, gan gynnwys llwybrau posibl a allai gefnogi cyfranogiad neu berchnogaeth gymunedol ar y pwynt adbweru. | Tymor canolig |
| | | Cydweithio â GBE a DESNZ i gyfrannu tystiolaeth Cymru ar sut mae trefniadau presennol y farchnad yn effeithio ar brosiectau cymunedol ar draws gwahanol ranbarthau, a defnyddio hyn i lywio opsiynau polisi'r DU, gan gynnwys asesu mecanweithiau cymorth cymesur ar gyfer prosiectau cymunedol lle mae'r dystiolaeth yn dangos bod modd eu cyfiawnhau. | Tymor canolig a pharhaus |

# Rhestr o dermau allweddol

CAA – Awdurdod Hedfan Sifil

CIB – Bonws y Diwydiant Glân

CSNP – Cynllun Rhwydwaith Strategol Canolog

CfD – Contractau ar gyfer Gwahaniaeth

DBW – Banc Datblygu Cymru

DESNZ – Yr Adran Diogeledd Ynni a Sero Net

DNO – Gweithredwr Rhwydwaith Dosbarthu

DCO – Gorchymyn Cydsyniad Datblygu

GBE – Great British Energy

KTP – Partneriaeth Trosglwyddo Gwybodaeth

ACLl – Awdurdod Cynllunio Lleol

MEDR – Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (CTER) / Medr

NATS – Gwasanaethau Traffig Awyr Cenedlaethol

NWF – Y Gronfa Gyfoeth Wladol

NESO – Gweithredwr y System Ynni Genedlaethol

CNC – Cyfoeth Naturiol Cymru

OFGEM – Swyddfa Marchnadoedd Nwy a Thrydan

OWGP – Partneriaeth Twf Gwynt ar y Môr

PEDW – Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru

PV – Ffotofoltäig

SSEP – Cynllun Ynni Gofodol Strategol

STEM – Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg

tRESP – Cynllun Strategol Ynni Rhanbarthol Trosiannol

TNUoS – Codi tâl am ddefnyddio’r system trawsyrru ynni

UKRI – UK Research and Innovation

# Atodiad 1: Cylch Gorchwyl Grŵp Gorchwyl a Gorffen Bargen y Sector Ynni Adnewyddadwy

Mae gennym weledigaeth ar gyfer ynni adnewyddadwy sy'n arwain at ddiogeledd ynni ac yn creu swyddi gwyrdd ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol yng Nghymru. Bydd Grŵp Gorchwyl a Gorffen Bargen y Sector Ynni Adnewyddadwy yn cynghori Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio ar gamau gweithredu a fydd yn helpu i gynnal yr amgylchedd cadarnhaol ar gyfer ynni adnewyddadwy yng Nghymru wrth amddiffyn a hyrwyddo'r amgylchedd a buddiannau cymunedau. Bydd y grŵp yn:

- Darparu asesiad manwl a gonest o gyflawnadwyedd ynni adnewyddadwy ar draws technolegau ac yn nodi'r meysydd blaenoriaeth i sicrhau newid economaidd a chymdeithasol ar draws ein cymunedau a'n heconomi ehangach
- Cytuno ar gynnwys Bargen y Sector Ynni Adnewyddadwy
- Datblygu i'w cynnwys ym Margen y Sector Ynni Adnewyddadwy argymhellion clir gyda chamau gweithredu pendant, amserlenni a pherchnogion camau gweithredu i fanteisio'n llawn ar y cyfleoedd ynni adnewyddadwy i Gymru.


Bydd y grŵp yn cael ei arwain gan arweinwyr technoleg (arweinwyr sector) a fydd yn gyfrifol am weithio o fewn eu technoleg. Disgwylir i aelodau ymgysylltu â sylwadau o bob rhan o'u diwydiant i adrodd yn ôl i'r grŵp gorchwyl a gorffen.

Dyma'r meysydd allweddol y bydd angen i'r grŵp gorchwyl a gorffen fynd i'r afael â nhw/eu hystyried wrth ddatblygu'r cynllun gweithredu:

- Y camau a gymerwyd a'r buddsoddiadau a wnaed yn ystod y misoedd a'r blynyddoedd diwethaf mewn meysydd allweddol er mwyn canolbwyntio bargen y sector ar ddileu'r rhwystrau sy'n weddill.
- Gall argymhellion y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gwynt ar y Môr gynnwys camau gweithredu a fydd yn berthnasol i dechnolegau ynni adnewyddadwy eraill. Yn yr un modd, mae Map Trywydd Solar a Strategaeth Gwynt ar y Tir Llywodraeth y DU yn cynnwys rhai argymhellion sydd i'w datblygu gyda'r Llywodraethau Datganoledig. Bydd angen ystyried gwaith Llywodraeth y DU ar y Tasglu Morol hefyd wrth i'r trafodaethau fynd rhagddynt ochr yn ochr â'r ddogfen hon. Gall y camau hynny fod yn berthnasol i waith y Grŵp hwn. Arweinwyr y sector fydd yn gyfrifol am gyflwyno'r camau perthnasol i'w hystyried.
- Gofynion datblygwyr, yn enwedig mewn perthynas â chydsynio, cadwyni cyflenwi a sgiliau.

Bydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn darparu argymhellion lefel uchel erbyn 1 Rhagfyr 2025 ac yn dod i ben erbyn mis Mawrth 2026.

Oherwydd sensitifrwydd masnachol y deunydd i'w drafod o fewn y grŵp, ni fyddwn yn cyhoeddi cofnodion o'r grŵp. Bydd aelodau yn parchu natur gyfrinachol unrhyw drafodaethau. Dim ond allbynnau'r cynllun gweithredu y bwriadwn eu cyhoeddi. Bydd holl aelodau'r grŵp yn cytuno ar unrhyw allbynnau cyhoeddedig eraill o'r grŵp.



## Aelodaeth

Mae aelodaeth y Grŵp Gorchwyl a Gorffen wedi'i nodi isod. Dim ond os cytunir i hynny ymlaen llaw gyda'r tîm ysgrifenyddiaeth y byddwn yn derbyn dirprwyon.

Bydd aelodau wedi cael eu dewis ar sail eu gallu i ledaenu allbwn o'r cyfarfodydd o fewn eu priod sectorau technoleg ac i ddod â safbwyntiau a phrofiadau'r sector hwnnw i'r trafodaethau. Bydd adborth gan y sectorau technoleg perthnasol ar y pynciau dan sylw yn rhan bwysig o'r drafodaeth ym mhob un o'r cyfarfodydd.

RWE, Lightsource BP, Cenin, EDF, Statkraft, Trydan Gwyrdd, Bute, Galileo, Wind2, Coriolis, Inyanga, QED Naval, British Hydro, Morlais, BSR, Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, ENSO

## Cydlynydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen a'r Cadeirydd:

Partneriaethau Lleol

## Cyfranwyr y Diwydiant Ynni Adnewyddadwy:

Solar Energy UK, Ynni Cymunedol Cymru, RenewableUK Cymru, Ynni Morol Cymru

## Gweinyddu

Bydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cael ei gefnogi gan swyddogion o bob rhan o'r llywodraeth, gan gynnwys o'r adrannau ynni a'r economi.

Bydd y grŵp a/neu ei is-grwpiau yn ceisio cyfarfod bob pythefnos trwy gyfuniad o gyfarfodydd wyneb yn wyneb a chyfarfodydd Teams.



© Hawlfraint y Goron 2026, Llywodraeth Cymru, WG54069, ISBN Digidol 978-1-83745-388-7